Estyn
Y Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
Swyddfa Safonau mewn Addysg
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Arolygiad ar y Cyd o Dimau Troseddwyr Ifainc Cymru a Lloegr

Adroddiad am: Wasanaeth Troseddwyr Ifainc Abertawe

ISBN: 978 1 84099 197 0

2009

Rhagair

Cynhaliwyd yr arolygiad o Wasanaeth Troseddwyr Ifainc Abertawe ym mhedwerydd cam ein rhaglen arolygu Timau Troseddwyr Ifainc. Gwelsom Wasanaeth Troseddwyr Ifainc (GTI) sydd wedi'i sefydlu'n dda, ac sydd wedi'i integreiddio'n briodol â grwpiau strategol a gweithredol eraill. Mae'r Bwrdd Rheoli wedi gweld rhywfaint o newidiadau o ran arweinyddiaeth ac aelodau, ond mae ymrwymiad a chyfranogiad gweithredol yn amlwg.

Mae'r GTI wedi datblygu gwasanaethau ataliol yn y gorffennol ac, yn ogystal ag ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y GTI ei hun, ymgysylltir â nifer o grwpiau gwirfoddol a lleol. Mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn dda.

Mae plant a phobl ifanc yn cael gwasanaeth da ar y cyfan gan y GTI, gan gynnwys ymyriadau iechyd ac addysg. Gwelwyd gwelliannau sylweddol wrth i'r gyfradd droseddu ostwng. Fodd bynnag, mae pryder ynglŷn â'r prosesau ar gyfer asesu a rheoli'r Perygl o Niwed a'r duedd i fod yn agored i niwed, ac mae lle i ddatblygu gwaith sy'n ymwneud â magu plant a gwaith sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr.

Andrew Bridges
Prif Arolygwr Prawf Ei Mawrhydi

Chwefror 2009

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i holl staff y GTI, aelodau o'r Bwrdd Rheoli a'r sefydliadau partner am eu cymorth wrth sicrhau bod yr arolygiad hwn yn cael ei gynnal yn ddidrafferth.

Hoffem fynegi'n diolch yn fwyaf arbennig i Eddie Isles, Lynn Minshall a Jennifer Black am eu hymroddiad i'r arolygiad.

Prif Arolygydd	*Sheila Booth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*
Arolygwyr	*Mary Browning Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Krystyna Findley Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Martyn Griffiths Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Keith Humphreys Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Les Smith Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Claire Yardley Estyn*
Staff Ategol	*Andrew Doyle, Oliver Kenton*
Y Tîm Cyhoeddiadau	*Rachel Dwyer, Alex Pentecost*
Golygydd	*Julie Fox Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*
Cynrychiolydd y GTI	*Lilian Rushton*

Cynnwys

		Tudalen
	Diolchiadau	2
	Geirfa	4
	Crynodeb	5
	Argymhellion	9
	Y camau nesaf	9
	Barn defnyddwyr y gwasanaeth	10
	Rhannu arferion da	12
1.	GWAITH YN Y LLYSOEDD	15
2.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED	19
	Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu	19
	Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu	25
	Gwaith gyda rhieni/gofalwyr	31
	Canlyniadau gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	33
3.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SYDD WEDI CAEL DEDFRYD O GARCHAR	36
4.	DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL	42
5.	RHEOLI AC ARWAIN	45
	Arwain a chynllunio	45
	Partneriaeth ac adnoddau	46
	Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff	48
	Atodiad 1: Gwybodaeth gyd-destunol	51
	Atodiad 2: Data arolygu	52
	Atodiad 3: Trefniadau arolygu ar y cyd	55
	Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a chod ymarfer	55

Geirfa

AAA	Anghenion addysgol arbennig
ACD	Adroddiad cyn dedfrydu
ADHD	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
Asset	Erfyn asesu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
BCI	Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
CAMHS	Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
CAMPUS	Cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
DAO	Darpariaeth Adsefydlu ac Ôl-ofal
Estyn	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
GTI/TTI	Gwasanaeth/Tîm Troseddwyr Ifainc
Integr8	Rhaglen Cynhwysiant Ieuenctid Abertawe
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd
Onset	Erfyn asesu ar gyfer achosion atal a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
PN	Perygl o Niwed
PND	Perygl o Niwed Difrifol
PPO	Troseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth
SIFA	Cyfweliad Sgrinio i Bobl Ifanc (Erfyn sgrinio iechyd meddwl ar gyfer gweithwyr arbenigol sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid)
SQIFA	Cyfweliad Holiadur Sgrinio i Bobl Ifanc (Erfyn sgrinio iechyd meddwl ar gyfer gweithwyr TTIau sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid)
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch
UMIS	System Gwybodaeth Monitro a Gwerthuso Gyffredinol

Crynodeb

Meini Prawf	Dyfarniad
Gwaith yn y llysoedd	**2**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu	**3**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu	**2**
Gwaith gyda rhieni/gofalwyr	**2**
Canlyniadau gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	**3**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi cael dedfryd o garchar	**2**
Dioddefwyr a chyfiawnder adferol	**2**
Rheoli ac arwain	**3**

Dyfarniad	Disgrifydd
4	Ardderchog – perfformiad cryf, yn llawer gwell na'r gofynion sylfaenol gyda nodweddion eithriadol
3	Da – perfformiad da, yn gyson well na'r gofynion sylfaenol heb unrhyw ddiffygion o bwys
2	Digonol – yn bodloni'r gofynion sylfaenol yn unig
1	Annigonol – nid yw'r gofynion sylfaenol yn cael eu cyflawni, ac mae llawer o ddiffygion pwysig

Gwaith yn y llysoedd

- Roedd gan y GTI brotocol cyfredol gyda'r llysoedd ac roedd yn darparu gwasanaeth da iddynt. Cynhelid nifer o gyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda defnyddwyr llysoedd, a chynigid cyfleoedd ar y cyd ar gyfer hyfforddiant.
- Roedd cefnogaeth tra ar fechnïaeth a gwaith goruchwylio a chadw ar remand yn cael eu rheoli'n dda, a gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl ifanc a oedd yn cael eu cadw ar remand yn y ddalfa.
- Roedd adroddiadau, gan gynnwys cynigion mewn adroddiadau cyn dedfrydu ac adroddiadau torri amodau, yn cael eu trafod a'u hystyried mewn panel dedfrydau cymunedol mewnol. Roedd ansawdd adroddiadau cyn dedfrydu'n amrywio, ac nid oedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau'n dilyn y ffurf a gymeradwywyd. Roedd pryderon ynglŷn ag asesu'r Perygl o Niwed a'r tebygolrwydd o aildroseddu a sut y cyflwynid asesiadau i'r llys.
- Er bod cynrychiolwyr y llysoedd yn dweud eu bod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y GTI, ni ddarperid adborth systematig am ansawdd yr adroddiadau a'r gwasanaeth yn gyffredinol.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

- Roedd y gwasanaethau ataliol wedi'u sefydlu'n dda ac roedd ganddynt brosesau atgyfeirio a sgrinio clir. Cyfeirid defnyddwyr at wasanaethau eraill yn briodol ac yn gyflym.
- Roedd yr asesiadau Onset ac Asset o ansawdd da ar y cyfan. Roedd angen rhoi sylw i asesu a rheoli Perygl o Niwed, Perygl o Niwed Difrifol a thuedd i fod yn agored i niwed, ynghyd ag ansawdd cynlluniau ymyrryd.
- Roedd y staff yn ymwybodol iawn o faterion yn ymwneud â diogelu. Roedd cysylltiad da gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, a rhywfaint o weithio ar y cyd, ond nid oedd y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ymateb i atgyfeiriadau bob tro.
- Ceid ystod eang o ymyriadau a rhoddid sylw i anghenion yn ymwneud ag amrywiaeth. Roedd mynediad da ar y cyfan at wasanaethau iechyd ac addysg i blant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o droseddu neu a oedd wedi troseddu.
- Nid oedd strategaeth gynhwysfawr ar fagu plant ac roedd angen gwneud cryn dipyn o waith datblygu yn y maes hwn.
- Gwelwyd bod y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc a fu'n ymwneud â'r GTI yn cael canlyniadau cadarnhaol a bod gostyngiad sylweddol yn nifer y troseddau.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi cael dedfryd o garchar

- Roeddem yn bryderus ynglŷn â diffyg tystiolaeth mewn rhai achosion bod gwybodaeth briodol wedi'i darparu i'r sefydliad diogel ar ddechrau cyfnod ar

remand neu ddedfryd i sefydliad diogel. Fodd bynnag, roedd ffactorau risg penodol wedi cael eu mynegi'n briodol.

- Roedd rheolwyr achosion yn ymwneud â chyfarfodydd ac adolygiadau'r cynllun hyfforddiant cychwynnol ar y cyfan. Roedd y cysylltiad â phlant a phobl ifanc yn bodloni'r safonau cenedlaethol, er y byddai'r plant a'r bobl ifanc wedi hoffi cael cysylltiad ar adegau ar wahân i gyfarfodydd ffurfiol, gan gynnwys cysylltiad drwy lythyr neu dros y ffôn.
- Roedd rhywfaint o bryder ynglŷn ag asesu a rheoli'r Perygl o Niwed, y Perygl o Niwed Difrifol a'r duedd i fod yn agored i niwed.
- Wrth ddychwelyd i'r gymuned, roedd plant a phobl ifanc yn manteisio ar nifer o ymyriadau yn y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid, gan gynnwys addysg, hyfforddiant, gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau corfforol.
- Roedd cyswllt effeithiol rhwng yr awdurdod lleol a sefydliadau diogel ac roedd cyfleoedd i'r plentyn neu'r person ifanc fanteisio ar addysg a hyfforddiant pan fyddai'n dychwelyd i'r gymuned. Roedd mynediad da at wasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.
- Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y dedfrydau o garchar ynghyd a gwelliannau i'r lleoedd aros ar gyfer llawer o blant a phobl ifanc.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

- Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y dioddefwyr a ddychwelodd holiaduron neu a welwyd fel rhan o'r arolygiad.
- Roedd y penderfyniad i gyfyngu prosesau dioddefwyr a chyfiawnder adferol i rybuddion terfynol a gorchmynion atgyfeirio yn bennaf wedi arwain at ddiffyg ystyriaeth gyson a systematig o waith yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ddioddefwyr, diogelwch dioddefwyr a phrosesau cyfiawnder adferol yn y rhan fwyaf o'r achosion eraill.
- Roedd rhywfaint o waith yn cael ei wneud ym maes ymwybyddiaeth o ddioddefwyr ac roedd safon y gwaith hwn yn dda. Prin oedd y defnydd o drefniadau gwneud iawn ac ychydig iawn o weithgareddau gwneud iawn uniongyrchol a welwyd. Nid oedd dioddefwyr yn ymwneud â phaneli troseddwyr ifainc fel arfer.

Rheoli ac arwain

- Roedd gan y Bwrdd Rheoli gynrychiolaeth briodol o holl bartneriaid statudol y GTI ac roedd yn dod yn grŵp deallus a oedd yn herio'n briodol. Fodd bynnag, gan fod rhai o'r aelodau'n newydd, roedd angen rhoi mwy o sylw i gynefino, yn enwedig yng nghyd-destun rolau a chyfrifoldebau. Roedd y GTI yn ymwneud â phob grŵp strategol a gweithredol arall ac adlewyrchid hynny yng Nghynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008.

- Roedd pryder ynglŷn â'r adnoddau a ddarperid i'r GTI gan bartneriaid statudol. Roedd y GTI wedi bod yn llwyddiannus iawn â'i ymdrechion i gael cyllid allanol, ond cyllid tymor byr oedd hwnnw.
- Roedd y rhan fwyaf o'r staff, ond nid y cyfan, yn effeithiol ac yn dangos ymrwymiad i'w gwaith; roeddent yn cael eu goruchwylio, roeddent yn cael eu rheoli'n dda ac roeddent wedi cael hyfforddiant. Roedd pob un wedi cael archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Nodwyd rhai anghenion hyfforddiant pwysig.

Argymhellion

Mae angen newidiadau er mwyn sicrhau *(nodir pwy sy'n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)*:

(1) bod adroddiadau cyn dedfrydu'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol o ran ffurf a chynnwys, a bod gan staff ddealltwriaeth lwyr o Berygl o Niwed, Perygl o Niwed Difrifol a thuedd i fod yn agored i niwed, a'u bod yn rhoi ystyriaeth briodol iddynt *(Rheolwr y GTI)*

(2) bod staff yn cael eu hyfforddi i ymgymryd ag asesiadau o Berygl o Niwed, Perygl o Niwed Difrifol a thuedd i fod yn agored i niwed a sut i'w cwblhau'n llawn. Cynlluniau rheoli risg a thuedd i fod yn agored i niwed yn cael eu sefydlu, eu monitro a'u hadolygu *(Rheolwr y GTI)*

(3) bod cynlluniau ymyrryd yn cael eu datblygu ym mhob achos, bod ganddynt amcanion sy'n seiliedig ar ganlyniad a'u bod yn cael eu trefnu a'u hadolygu'n briodol *(Rheolwr y GTI)*

(4) dealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau a throthwyau, cyfathrebu effeithiol a, lle bo angen, trefniadau gweithio ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant *(Y Bwrdd Rheoli)*

(5) bod rhieni/gofalwyr yn cael asesiadau o angen, cefnogaeth ac ystod briodol o ymyriadau *(Y Bwrdd Rheoli)*

(6) bod gwaith sy'n ymwneud â dioddefwyr yn cael ei wneud yn unol â safonau cenedlaethol *(Y Bwrdd Rheoli)*

(7) bod proses gynefino'n cael ei datblygu ar gyfer aelodau newydd o'r Bwrdd Rheoli *(Cadeirydd y Bwrdd Rheoli)*

(8) bod trefniadau rheoli yn y GTI yn galluogi pob aelod o'r staff i gael cefnogaeth, goruchwyliaeth a gwerthusiad *(Y Bwrdd Rheoli).*

Y camau nesaf

Dylai cynllun gwella sy'n rhoi sylw i'r argymhellion gael ei gyflwyno i Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, i gael ei gymeradwyo, bedair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu hwn. Ar ôl cytuno ar y cynllun, bydd yn cael ei anfon i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn i'r Bwrdd allu monitro'r broses o'i roi ar waith.

Barn defnyddwyr y gwasanaeth

Plant a phobl ifanc

Llenwodd pedwar ar ddeg o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad, naill ai'n annibynnol neu yn ystod cyfweliad gydag arolygydd.

- Roedd bron bob un o'r plant a'r bobl ifanc yn deall pam yr oeddent yn ymwneud â'r GTI a pha mor bwysig oedd cadw'u hapwyntiadau.
- Roedd tri chwarter y plant a'r bobl ifanc wedi cael Adroddiad Cyn Dedfrydu ac roedd pob un o'r rhain wedi gweld yr adroddiad ac wedi cael eglurhad arno cyn mynd i'r llys.
- Roedd pob un o'r plant a'r bobl ifanc yn credu bod gan staff y GTI ddiddordeb ynddynt. Roedd mwy na'u tri chwarter wedi cael cymorth gydag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ac roedd bron i dri chwarter y plant a'r bobl ifanc yn credu bod yr agwedd hon ar eu bywydau wedi gwella. Roedd mwy na'u hanner yn credu bod y GTI wedi'u helpu gyda phroblemau yn ymwneud â'u ffordd o fyw a dod i ddeall pam yr oeddent wedi troseddu.
- Roedd ychydig yn llai nag un rhan o dair yn credu bod anghenion yn ymwneud ag amrywiaeth a oedd ganddynt wedi cael eu diwallu, ac roedd bron bob un ohonynt yn teimlo bod staff y GTI wedi gwneud eu gorau i'w galluogi i elwa cymaint ag y gallent o ganlyniad i'r ymyriadau. Teimlai pob un ei fod wedi cael ei drin yn deg, ac roedd bron bob un yn gwybod beth i'w wneud os oedd yn awyddus i gwyno. Roedd bron i ddwy ran o dair yn gwbl fodlon â'r gwasanaeth roeddent wedi'i gael. Pan ofynnwyd iddynt beth y gellid ei wella dywedodd un plentyn neu berson ifanc: *"Dim byd. Mae'r gwasanaeth yn un da iawn i bobl ifanc."*

Cynhaliwyd pedwar cyfweliad gyda phlant a phobl ifanc a oedd yn y ddalfa.

- Roedd tri o'r pedwar hyn yn gwybod sut i gysylltu â'u gweithiwr GTI. Mewn un achos, nid oedd y gweithiwr GTI wedi mynychu pob un o'r cyfarfodydd cynllunio hyfforddiant; yn y tri achos arall cafwyd mewnbwn i'r rhaglen hyfforddiant gan weithiwr GTI.
- Roedd tri o'r pedwar yn credu eu bod wedi cael cymorth â'u hymddygiad troseddol. Teimlai tri o'r pedwar eu bod wedi cael cymorth â'u problem camddefnyddio cyffuriau a theimlai dau eu bod wedi cael cymorth â'u problem camddefnyddio alcohol.
- Credai pob un ohonynt fod y gweithiwr GTI wedi ymwneud â'r gwaith o'u paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Dywedodd pob un nad oeddent wedi cael ymweliad rhwng cyfarfodydd, ac nad oeddent wedi cael llythyr na galwad ffôn. Dywedodd dau nad oedd eu rhieni/gofalwyr wedi cael cymorth i ymweld â hwy.

- Dywedodd dau eu bod yn credu bod gan staff y GTI ddiddordeb mewn cynnig cymorth iddynt, dywedodd tri bod y gweithwyr wedi dangos parch tuag atynt, ond nid oedd yr un o'r pedwar plentyn a pherson ifanc yn gwybod sut i gyflwyno cwyn ynglŷn â'r GTI.

Rhieni/gofalwyr

Llenwyd un ar ddeg o holiaduron gan rieni/gofalwyr, naill ai'n annibynnol neu yn ystod cyfweliad gydag arolygydd.

- Roedd bron bob un o'r rhieni/gofalwyr wedi deall pwrpas y cysylltiad cyntaf gyda'r GTI ac wedi cael budd ohono. Lle paratowyd Adroddiad Cyn Dedfrydu, roedd y rhan fwyaf o'r rhieni/gofalwyr wedi gweld yr adroddiad a chael eglurhad ohono cyn mynd i'r llys. Teimlai pob un bod anghenion yn ymwneud ag amrywiaeth wedi cael eu hystyried. Roedd pob un o'r rhieni/gofalwyr yn deall beth roedd y GTI yn ei wneud gyda'u plentyn.
- Cynigiwyd cymorth â'r dasg o fagu plant i fwy na thri chwarter y rhieni/gofalwyr, ond dim ond hanner y rhain gafodd unrhyw gymorth, a dywedodd un rhiant/gofalwr fod angen *"mwy o gefnogaeth i rieni"*.
- Roedd bron i dri chwarter y rhieni/gofalwyr yn gwybod sut i gyflwyno cwyn. Teimlai pob un ond un fod cysylltiad y GTI wedi gwneud pethau'n well iddynt hwy a theimlai'r mwyafrif helaeth ohonynt fod cysylltiad y GTI wedi gwneud pethau'n well i'r plentyn neu'r person ifanc. Roedd pob un ond un yn gymharol fodlon neu'n gwbl fodlon â'r gwasanaeth a gawsant.

Dioddefwyr

Llenwyd un ar ddeg o holiaduron gan ddioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc, naill ai'n annibynnol neu yn ystod cyfweliad gydag arolygydd.

- Roedd pob un o'r un ar ddeg yn teimlo bod y cysylltiad cyntaf gyda'r GTI wedi bod yn fuddiol: roedd staff y GTI yn egluro pam yr oeddent yn cysylltu â hwy a beth y gallai'r GTI ei gynnig. Dywedodd bron bob un o'r dioddefwyr eu bod wedi cael digon o wybodaeth am ddedfrydau a beth y byddai hynny'n ei olygu i'r plentyn neu'r person ifanc.
- Credai pob un bod eu hanghenion wedi cael eu hystyried; eu bod wedi cael cyfle i siarad am eu pryderon a'u bod yn cael cyfle i ddweud i ba raddau yr oeddent yn dymuno ymwneud â'r gwaith gyda'r plentyn neu'r person ifanc.
- Roedd hanner y dioddefwyr wedi elwa yn dilyn y gwaith a wnaethpwyd gan y plentyn neu'r person ifanc a gyflawnodd y trosedd. Dywedodd bron i ddwy ran o dair ohonynt fod y GTI wedi ystyried eu diogelwch. Nid oedd gan y gweddill unrhyw bryderon ynglŷn â'u diogelwch, ac roedd pob un yn gwybod beth i'w wneud pe gai ganddynt unrhyw bryder ynglŷn â hyn.
- Roedd pob un o'r un ar ddeg yn gwybod sut i gyflwyno cwyn ac roedd pob un yn gwbl fodlon neu'n fodlon ar y cyfan â'r gwasanaeth a gawsant gan y GTI. Dywedodd un person: *"Gwych bob amser, cefnogol iawn."*

Rhannu arferion da

Gwelir isod rai enghreifftiau o arferion da a welsom yn y GTI.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu

Meini prawf cyffredinol: 2.1 a 2.4

Nod y cynadleddau grŵp teuluol oedd lleihau nifer y gwaharddiadau o ysgolion, gwella presenoldeb, a lleihau ymddieithriad, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Roedd teuluoedd yn elwa o ganlyniad i gymryd rhan mewn cynadleddau grŵp teuluol a gynlluniwyd er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn y broses o ddatrys eu hanawsterau ac ymdrin ag unrhyw bryderon a oedd ganddynt.

Roedd Ieuan yn cael anawsterau difrifol yn yr ysgol ac yn dechrau dangos ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cynhaliwyd cynhadledd. Roedd y gweithiwr addysg yn rhan o'r gynhadledd a chyfeiriodd Ieuan am asesiad. Dangosodd yr asesiad fod gan Ieuan anawsterau dysgu sylweddol. Bu tiwtor cartref yn gweithio gydag ef ac ailgyflwynwyd ef yn raddol i'r ysgol brif ffrwd â chefnogaeth briodol. Cafodd y teulu ymyriad gan CAMHS hefyd: roedd mentor yn gweithio gyda Ieuan, a'r mentor hwn oedd yn gyfrifol am gyflwyno Ieuan i weithgareddau hamdden a chyfeirio'i fam at brosiect camddefnyddio sylweddau lleol. Erbyn diwedd yr ymyriad roedd Ieuan yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, roedd ei berthynas gyda'i fam a'i fam-gu wedi gwella ac roedd yn gwneud defnydd adeiladol o'i oriau hamdden.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu

Meini prawf cyffredinol: 2.1 a 2.4

Roedd menter amlasiantaethol Hybu Ymddygiad Cadarnhaol yn fenter lwyddiannus, a'i nod oedd hybu cynhwysiant cymdeithasol ac addysgol a thrwy hynny leihau nifer y plant a'r bobl ifanc nad oeddent yn mynychu ysgol neu a oedd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol. Rheolid y rhaglen gan grŵp llywio a oedd yn cynnwys swyddogion o'r adran addysg, y gwasanaethau cymdeithasol a'r tîm troseddwyr ifainc. Roedd yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn cael cymorth i ddatblygu agweddau cadarnhaol ac effeithiol at addysgu a dysgu fel bod pob dysgwr yn cael ei gynnwys.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

Maen prawf cyffredinol: 2.5

Roedd y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid yn darparu nifer o wahanol raglenni, gan gynnwys Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys, Integr8 a Darpariaeth Adsefydlu ac Ôl-ofal, ynghyd â gweithgareddau ar gyfer unigolion a grwpiau. Roedd y ganolfan yn lleoliad addas ac atyniadol. Roedd yn agos at gludiant cyhoeddus ac at gwmni dysgu seiliedig ar waith yr awdurdod lleol. Roedd yno ardal ymarferol, cegin, ystafell â digon o adnoddau technoleg gwybodaeth a dau weithdy llawn cyfarpar, y naill ar gyfer gwaith coed a'r llall ar gyfer mecaneg a gwaith cynnal a chadw.

Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

Maen prawf cyffredinol: 2.9

Roedd y tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gweithio gydag asiantaeth annibynnol o'r enw Breakout, i roi cyfle i deuluoedd cyfan gael ymyriad yn seiliedig ar weithgareddau. Roedd y teulu'n cael ei roi mewn sefyllfaoedd lle'r oedd angen i bawb weithio gyda'i gilydd fel tîm er mwyn cwblhau tasg. Rhoddid cyfle i rieni/gofalwyr weld sut roedd gweithwyr proffesiynol yn ymdrin â'u plant, pa dechnegau dysgu y gellid eu defnyddio gartref a sut y gallent gael hwyl gyda'i gilydd.

Roedd Katy yn rhiant sengl ac yn cael cryn dipyn o waith i reoli tri bachgen naw, 11 a 13 oed. Roedd pob un yn dechrau dangos ymddygiad gwrthgymdeithasol ac roedd y bachgen hynaf wedi cael rhybudd terfynol. Aethpwyd â'r teulu i ganolfan weithgareddau am y penwythnos lle buont yn gweithio gyda'i gilydd i gwblhau a chystadlu mewn nifer o wahanol weithgareddau. Dysgodd Katy bwysigrwydd cysondeb wrth reoli ei meibion a nifer o dechnegau er mwyn ymdrin ag ymddygiad annerbyniol. Gwelodd y bechgyn ochr wahanol iawn i'w mam ac roeddent yn rhyfeddu at y sgiliau na wyddent ei bod yn meddu arnynt. Cytunasant i ddal i fynd i nofio gyda'i gilydd a chyfeiriwyd Katy at grŵp magu plant.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi cael dedfryd o garchar **Maen prawf cyffredinol: 3.4**	Roedd cwmni dysgu seiliedig ar waith Dinas a Sir Abertawe'n darparu nifer o gyrsiau priodol ar gyfer plant a phobl ifanc pan oeddent yn dychwelyd i'r gymuned o sefydliadau diogel. Roedd y Rhaglen Camau Cyntaf yn rhaglen hyblyg ac fe'i lluniwyd ar gyfer plant a phobl ifanc o'r GTI a phlant a phobl ifanc eraill a oedd wedi ymddieithrio. Roedd yn darparu nifer o wahanol weithgareddau gyda'r bwriad o baratoi a chynorthwyo plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau roedd arnynt eu hangen er mwyn cael gwaith a chadw swydd. Roedd y plant a'r bobl ifanc yn cael profiad gwaith, yn cael cymorth â sgiliau sylfaenol, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac ymyriadau eraill er mwyn datblygu eu hyder a'u gallu i weithio gyda phobl eraill.
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi cael dedfryd o garchar **Meini prawf cyffredinol: 3.3 a 3.4**	Merch ifanc 16 oed oedd Vicki ac roedd wedi cael Gorchymyn Cadw a Hyfforddi am ymosod ar ŵr oedrannus. Er bod y gwaith rhwng y GTI a'r sefydliad diogel a'r ymyriadau gofal iechyd yn dda iawn, roedd y canlyniadau addysgol yn fwy trawiadol fyth. Roedd Vicki mewn coleg yn paratoi ar gyfer arholiadau TGAU ac roedd eisoes wedi cael rhai cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol. Roedd ei hanawsterau dysgu naill ai wedi cael eu hanwybyddu yn y gorffennol neu heb eu canfod. Llwyddodd i gefnu ar y dylanwad drwg blaenorol a rhoi sylw i'w phroblem camddefnyddio sylweddau, ac roedd yn ailadeiladu ei bywyd. Roedd wedi dod yn ferch ifanc feddylgar a oedd yn ymwybodol ohoni hi ei hun. Yn ôl Vicki: *"Oni bai am (y GTI) fyddwn i ddim yma heddiw."*
Rheoli ac arwain **Maen prawf cyffredinol: 5.2**	Roedd swyddogion yr heddlu yn y GTI yn chwarae rhan allweddol yn y broses o rannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a'r GTI, yng nghyd-destun gweithgareddau troseddol a diogelu. Roedd y swyddogion yn gallu defnyddio cronfa ddata amlberthynol yr heddlu, sef Niche, a oedd yn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth drwy dasgau dyddiol i swyddogion yr heddlu. Roedd y staff cymorth yn y GTI wedi cael hyfforddiant a chaniatâd i ddefnyddio'r gronfa ddata. Roedd hyn yn ddefnyddiol iawn pan nad oedd swyddogion yr heddlu yn y GTS yn y swyddfa, gan fod modd osgoi unrhyw oedi yn y broses.

1. GWAITH YN Y LLYSOEDD

1.1 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc eu diogelu a chaiff y tebygolrwydd y byddant yn troseddu eto ei leihau trwy ddarparu gwasanaethau cyn-dedfrydu priodol, gan gynnwys rhaglenni goruchwylio a chefnogi tra ar fechnïaeth.

Roedd dau swyddog llys, a oedd yn swyddog prawf ar secondiad ac uwch ymarferydd gwaith cymdeithasol, yn rhan o'r tîm llysoedd, rhybuddion terfynol a gorchmynion atgyfeirio. Roeddent yn darparu gwasanaeth i'r llysoedd ieuenctid, llysoedd yr ynadon a Llys y Goron. Roedd yno hefyd dîm rheoli remand gydag uwch ymarferydd gwaith cymdeithasol a gweithiwr cymdeithasol.

Cryfderau:

(1) Roedd gan y GTI brotocol gyda'r Llys Ieuenctid, ac roedd y cytundeb hwn ar gyfer ardal De Cymru yn ei chyfanrwydd. Roedd y protocol wedi cael ei adolygu a'i ddiwygio yn ddiweddar, ac roedd yn cynnwys trefniadau i hysbysu ymlaen llaw ynglŷn ag achosion tebygol o gadw ar remand a rhestrau llys. Roedd hefyd yn ymdrin â materion eraill a oedd yn gysylltiedig â chyflenwi gwasanaeth, megis staffio, prydlondeb adroddiadau a darparu gwasanaethau cefnogi. Roedd gan y GTI berthynas waith agos gyda Thimau Troseddwyr Ifainc (TTI) eraill yn yr ardal, a threfniadau cytbwys i hysbysu ei gilydd ynglŷn â phlant a phobl ifanc a fyddai'n ymddangos gerbron llysoedd lleol. Roedd cytundeb trawsffiniol hefyd rhwng TTIau De Cymru ynglŷn â mechnïaeth a gwasanaethau Oedolyn Priodol.

(2) Roedd staff llys y GTI a'r swyddog mechnïaeth yn cyfarfod bob bore am 8am. Roeddent yn mynd drwy restr y rhai a oedd wedi cael eu harestio a'u cadw ar remand dros nos, ac yn edrych a oedd unrhyw blentyn neu berson ifanc yn hysbys i'r GTI neu, os oeddent o'r tu allan i ardal y GTI, beth oedd eu statws yn eu hawdurdod eu hunain. Roeddent hefyd yn edrych a oedd unrhyw blant a phobl ifanc i fod i ymddangos yn Llys y Goron. Roedd staff y llys yn mynychu Llys y Goron, os oedd angen, ac roedd ganddynt berthynas agos yno gyda'r Gwasanaeth Prawf.

(3) Cefnogid swyddogion llys gan ystod eang o becynnau mechnïaeth, gan gynnwys y Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys, a oedd wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc a anfonwyd i sefydliad remand diogel yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

(4) Roedd y GTI yn gallu defnyddio'r gronfa ddata gofal cymdeithasol ac roedd yn gallu gwirio statws plentyn neu berson ifanc. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o gydweithio priodol yn ystod y cyfnod cyn dedfryd hwn.

(5) Roedd pob plentyn a pherson ifanc a oedd yn cael ei gadw ar remand mewn sefydliad diogel, neu'n cael ei ddedfrydu i sefydliad diogel, yn cael cyfweliad cyn gadael safle'r llys, ac roedd adroddiad ar ôl cyfnod yn y ddalfa, a'r holl ddogfennau perthnasol eraill, naill ai'n cael eu hanfon gydag ef i'r sefydliad neu'n cael eu hanfon drwy e-bost diogel.

(6) Roedd swyddog mechnïaeth y GTI ac aelod o dîm Darpariaeth Adsefydlu ac Ôl-ofal (DAO) y GTI yn mynychu cyfarfodydd adolygu remand. Roedd y tîm DAO yn cynnal asesiad gyda'r bwriad o gynnig cefnogaeth, drwy'r cyfnod ar remand ac ar ôl rhyddhau o'r ddalfa neu yn ystod cyfnod ar fechnïaeth yn y gymuned. Roedd swyddog mechnïaeth y GTI yn ymweld ag unrhyw blentyn neu berson ifanc a oedd yn cael ei gadw ar remand mewn sefydliad diogel neu garchar gyda'r bwriad o edrych ar ddewisiadau eraill ar gyfer mechnïaeth gan gynnwys Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys ar gyfer mechnïaeth.

(7) Dywedodd y dedfrydwyr a gyfwelwyd yn ystod yr arolygiad bod ganddynt ffydd yn y GTI a'u bod yn gwbl fodlon ag ef, gan gynnwys cyfraniad staff y GTI yn y gwrandawiadau cyntaf.

(8) Roedd cyfanswm yr achosion o gadw ar remand wedi gostwng yn sylweddol o 413 yn 2005/2006 i 287 yn 2007/2008, ac roedd nifer yr achosion o gadw ar remand yn y ddalfa wedi haneru bron o 27 i 14. Ni chafwyd unrhyw achosion o gadw ar remand yn sefydliadau'r awdurdod lleol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Maes i'w wella:

(1) Roedd rhywfaint o brinder lle yn enwedig pan oedd plant a phobl ifanc yn cael eu monitro'n electronig.

1.2 Maen prawf cyffredinol:

Cynorthwyir y llysoedd wrth wneud penderfyniadau deallus, amserol ac effeithiol trwy ddarparu adroddiadau o ansawdd da a gwybodaeth briodol gan y TTIau.

Cryfderau:

(1) Roedd y staff llys yn hynod brofiadol a gwybodus. Roedd trefniadau clir yn bodoli er mwyn sicrhau bod y GTI yn ymwneud â'r llysoedd ieuenctid, llysoedd yr ynadon a Llys y Goron, ac ategid y rhain gan brotocolau gyda'r holl randdeiliaid perthnasol.

(2) Roedd gan y GTI berthynas waith dda gyda dedfrydwyr, staff llys ac asiantaethau eraill a oedd yn ymwneud â'r llysoedd. Caniateid defnydd o ystafelloedd llys ynghyd â systemau technoleg gwybodaeth y GTI, a oedd yn ddefnyddiol iawn gan fod y GTI wedi'i gysylltu'n electronig (h.y. roedd ganddo fynediad electronig yn y llys at gronfa ddata'r GTI, y BCI a sefydliadau diogel). Darperid ystafelloedd hefyd i gyfweld plant a phobl ifanc a'u

rhieni/gofalwyr. Roedd y Prosiect Cyfiawnder Troseddol a oedd yn anelu at ddedfrydau syml, cyflym a diannod i'w roi ar waith fesul cam yn y dyfodol agos ac roedd rheolwyr y GTI wedi bod yn ymwneud â'r gwaith o baratoi ar gyfer hyn. Ni ragwelid unrhyw effaith anffafriol ar waith y GTI yn y Llys Ieuenctid gan fod ganddo hanes o gyfiawnder cyflym yn barod, gydag achosion troseddwyr ifanc mynych yn cael eu trin cyn pen 35 diwrnod gwaith.

(3) Roedd staff y GTI yn mynychu cyfarfodydd gyda phobl eraill a oedd yn defnyddio'r llysoedd yn rheolaidd, gan gynnwys Grŵp Defnyddwyr y Llys Ieuenctid a Phanel y Llys Ieuenctid, ac roeddent wedi defnyddio'r cyfleoedd hyn i roi anerchiadau ynglŷn â datblygiadau ymarfer yn y GTI. Cynhelid cyfarfodydd rheolaidd hefyd rhwng rheolwyr y GTI a Chadeirydd Mainc y Llys Ieuenctid ac Uwch Gynghorydd Cyfreithiol y Llys Ieuenctid.

(4) Roedd y GTI hefyd yn ymwneud â hyfforddi ynadon, ac roedd y dedfrydwyr yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant rheolaidd a gynigid ar y cyd rhyngddynt hwy ac aelodau'r panel troseddwyr ifainc.

(5) Roedd y panel dedfrydau cymunedol, a sefydlwyd gan y GTI, yn cael ei gadeirio gan un o swyddogion y llys, ac roedd yn cynnwys staff priodol o bob rhan o'r GTI yn ogystal â'r cydgysylltydd cyfiawnder adferol a chynrychiolydd o'r Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys. Roedd y panel hwn yn adolygu pob adroddiad cyn dedfrydu (ACD), pob adroddiad torri amodau a phob adroddiad diddymu am gynnydd da. Roedd yn darparu cefnogaeth gan gymheiriaid ac yn adolygu cynigion ar gyfer dedfrydau, gan ddarparu cysondeb a rhywfaint o drefniadau monitro. Roedd y staff yn credu ei fod yn ddefnyddiol iawn wrth benderfynu ynglŷn â chynigion lle'r oedd perygl o anfon i'r ddalfa.

(6) Gwelwyd ugain ACD fel rhan o'r broses arolygu. Paratowyd bron bob un o fewn yr amserlenni safonol cenedlaethol. Roedd pob un yn seiliedig ar gyfweliad gyda'r plentyn neu'r person ifanc ac, mewn achosion priodol, gyda'u rhieni/gofalwyr, ac roedd y plentyn neu'r person ifanc a'i rieni/gofalwyr wedi cael copi o'r adroddiad. Cysylltwyd â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i ganfod a oeddent yn gwybod am y plentyn neu'r person ifanc ym mhob achos. Roedd dros dri chwarter yn braf o'r adroddiadau'n rhoi sylw i faterion amrywiaeth.

(7) Yn ychwanegol at hyn, yn ystod y cam adroddiadau cyn dedfrydu, cynhelid asesiadau emosiynol, asesiadau iechyd meddwl ac asesiadau camddefnyddio sylweddau amserol gan y nyrs seiciatrig arbenigol a gweithiwr cyffuriau yn y GTI. Darperid cefnogaeth a thriniaeth yn ôl y galw.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd pryderon ynglŷn â ffurf ac ansawdd llawer o'r ACDau. Roedd mwy na'u hanner heb gael eu paratoi yn y ffurf a gymeradwywyd ar gyfer adroddiadau neu heb fod yn ddigon cryno.

(2) Dim ond ychydig dros hanner yr adroddiadau oedd yn dadansoddi'r trosedd yn ogystal â'i ddisgrifio, a dim ond eu chwarter oedd yn gwahaniaethu rhwng

tebygolrwydd o aildroseddu a pherygl o niwed. Er bod yr adroddiadau bob amser yn nodi pa mor beryglus oedd plentyn neu berson ifanc pan oedd hynny'n ofynnol, roedd angen i'r ystyriaeth o'r perygl o niwed, yn enwedig y perygl o niwed difrifol, roi mwy o sylw i ddifrifoldeb y trosedd fel sy'n cael ei amlinellu yn yr asesiadau Asset. Dim ond un rhan o dair o'r adroddiadau oedd yn cynnwys digon o wybodaeth briodol am ddioddefwyr.

(3) Er bod y GTI wedi ymdrechu'n galed i recriwtio a chadw staff sy'n siarad Cymraeg, nid oedd ganddo staff a allai ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yn gallu defnyddio cyfieithwyr a gwasanaeth cyfieithu'r awdurdod.

(4) Nid oedd gwybodaeth am iechyd yn yr Adroddiadau Cyn Dedfrydu'n glir neu'n ddigon manwl.

(5) Roedd gwasanaeth ar ddydd Sadwrn ac ar wyliau banc yn ddibynnol ar y tîm a oedd ar ddyletswydd ar ôl oriau arferol, ac roedd staff y GTI yn darparu system wrth gefn anffurfiol os oedd anawsterau penodol. Nid oedd staff y GTI na'r llys yn credu bod hwn yn drefniant boddhaol.

(6) Er bod cyfarfodydd penodol yn cael eu cynnal gyda dedfrydwyr, nid oedd systemau i alluogi ynadon unigol i gynnig adborth i'r GTI ynglŷn â'r gwasanaeth roeddent yn ei gael nac ynglŷn ag ansawdd adroddiadau a chynigion ar gyfer dedfrydu.

Casgliad: Dengys yr asesiad bod y meini prawf hyn yn cael eu cyflawni'n **ddigonol**.

2. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu

2.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI (neu eraill ar ei ran) yn cynnal gweithgareddau priodol i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

Roedd gan y GTI hanes maith o ymwneud â datblygu gwasanaethau ataliol ac roedd wedi gallu ailgyfeirio arian o waith gorchmynion statudol y tîm i waith ataliol. Roedd pedwar tîm yn y GTI a oedd yn darparu ystod o wasanaethau ataliol: Rhaglen Cynhwysiant Ieuenctid (o'r enw Integr8), tîm atal, cynadleddau grŵp teuluol a oedd yn gysylltiedig â'r Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid a thîm ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cryfderau:

(1) Roedd cysylltiadau da iawn ag asiantaethau statudol eraill ac â nifer sylweddol o grwpiau gwirfoddol a lleol, gan gynnwys rhai grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

(2) Ceid prosesau atgyfeirio a sgrinio clir yn seiliedig ar gyfres benodol o feini prawf a graddfeydd blaenoriaeth. Roedd ffurflen atgyfeirio a sgrinio'n cael ei llenwi ym mhob un o'r achosion atal a welsom ni ac roedd y wybodaeth yn cael ei gwirio'n briodol. Lle'r oedd yn briodol cyfeirio at wasanaethau eraill, roedd hyn yn cael ei wneud yn fuan ac yn cael ei gofnodi.

(3) Roedd y staff yn ymdrechu'n ddyfal iawn i ymgysylltu â theuluoedd ac ymwelid â chartrefi fwy nag unwaith os oedd angen.

(4) Roedd asesiadau Onset wedi'u cwblhau ar gyfer pob un o'r achosion yn sampl yr arolygiad yn unol â'r amserlen a bennwyd gan y timau. Roedd gan y cynadleddau grŵp teuluol a'r Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid systemau rheoli arbennig o dda er mwyn monitro'r amserlenni y cytunwyd arnynt yn lleol. Roedd pob un o'r asesiadau'n cynnwys cyfweliad gyda'r plentyn neu'r person ifanc a'i rieni/gofalwyr. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, roedd cysylltiad gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r darparwyr addysg. Roedd defnydd da'n cael ei wneud ar brydiau o'r ffurflen Onset *Over to You*. Roedd yr asesiadau Onset i gyd o ansawdd digonol.

(5) Roedd materion yn ymwneud ag amrywiaeth wedi cael eu nodi ym mhob achos a rhoddid sylw i anghenion unigol mewn cynlluniau ymyrryd. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd gwaith gyda phlentyn neu berson ifanc, y gwelwyd bod ganddo anabledd dysgu nad oedd wedi cael ei ganfod cyn hynny, yn gwneud defnydd o ddulliau cyfathrebu darluniadol a geiriol. Yn achos plentyn

neu berson ifanc arall oedd ag ADHD, cynhaliwyd cynhadledd grŵp teuluol fechan mewn ystafell lai, gyda grŵp llai o bobl. Cynhelid asesiadau risg er mwyn ystyried y peryglon yn yr ystafelloedd a ddefnyddid ar gyfer cynadleddau, defnyddid cyfieithwyr pan oedd angen ac roedd dogfennau, gan gynnwys cynlluniau ymyrryd, wedi cael eu cyfieithu pan oedd angen.

(6) Roedd gan y GTI gysylltiadau gyda grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn Abertawe. Roedd yn noddi gweithiwr datblygu ieuenctid gyda'r Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig ac yn ymwneud â'r Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig. Roedd anghenion penodol merched ifanc yn cael eu cydnabod ac roedd materion yn ymwneud â rhyw'n cael eu hystyried wrth neilltuo gweithwyr.

(7) Roedd cynlluniau ymyrryd wedi'u paratoi o fewn amserlenni cytunedig ym mhob achos ac roedd cysylltiadau clir gyda'r ysgol, ynghyd â chynlluniau gofal cymdeithasol lle'r oedd hynny'n berthnasol. Mewn bron i ddwy ran o dair o'r achosion, roedd yr ymyriadau a gynlluniwyd wedi'u gosod mewn trefn briodol ac, mewn mwy na thri chwarter o'r achosion, roedd yr ymyriadau a gynlluniwyd yn rhoi sylw i'r tebygolrwydd o ymddygiad troseddol, y perygl o niwed i eraill ac ailintegreiddio yn y gymuned.

(8) Defnyddid ystod eang o ymyriadau i roi sylw i faterion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, rheoli dicter a hunan-barch yn ogystal â pherthynas deuluol. Gwneid defnydd da o gynllun mentora'r brentisiaeth fodern a oedd yn darparu gwasanaeth mentora yn ogystal ag ystod o weithgareddau.

(9) Roedd pob un o'r cynlluniau ymyrryd wedi cael ei adolygu'n briodol, ac roedd llawer ohonynt yn ymwneud ag asiantaethau amrywiol eraill. Roedd y rhan fwyaf wedi cael eu hysbysu drwy adolygiad o'r asesiad Onset. Roedd pob un o'r timau'n gweithio'n galed er mwyn sicrhau gwaith amlasiantaethol a rhaid canmol eu dyfalbarhad ar adegau wrth geisio gwneud hyn.

(10) Roedd y timau atal yn gyfarwydd â dogfennau atgyfeirio'r Fframwaith Asesu Cyffredin ac yn eu defnyddio. Gwelsom rai enghreifftiau da o waith rhyngasiantaethol gyda gofal cymdeithasol, gan gynnwys cytundeb i blentyn neu berson ifanc gael ei roi mewn llety am gyfnod byr tra'r oedd rhywfaint o waith dwys yn cael ei wneud gydag ef a'i deulu. Yn dilyn hyn cafodd ddychwelyd i'w gartref a'i ailintegreiddio mewn ysgol brif ffrwd. Ym mhob un o'r achosion lle'r oedd angen gweithio ar y cyd, cafodd yr ymyriadau eu darparu yn unol â'r cynlluniau, eu cyfathrebu'n effeithiol a'u cyflawni o fewn amserlenni rhesymol.

(11) Roedd y tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dîm amlasiantaethol rhagweithiol gyda chynrychiolwyr o ddiogelwch cymunedol, yr heddlu a'r GTI. Roedd yn cael ei gynorthwyo gan swyddog datblygu mentora rhieni gan gymheiriaid a oedd yn gweithio i Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a gweithiwr prosiect a oedd yn ymwneud â therapi gwybyddol. Roedd ganddo nifer o brosiectau wedi'u lleoli mewn ysgolion, ac roedd yn cynnal gweithdai ar y cyd â'r heddlu, yn mynychu diwrnodau addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion ac yn cyfrannu at brofiad gwaith a gynigid gan swyddogion yr

heddlu yn y gymuned leol. Roedd y prosiectau cymunedol yn cynnwys gweithio gyda'r heddlu mewn nifer o brosiectau ar y cyd, a gweithio gydag adran y parciau er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mharciau'r ddinas.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd cronfa ddata UMIS yn gymharol newydd i'r GTI, ac er bod y timau i gyd yn deall pwysigrwydd asesiadau PN a PND roedd rhywfaint o ddiffyg dealltwriaeth o'r prosesau ac nid oeddent yn cael eu dilyn drwodd drwy ddatblygu cynlluniau rheoli perygl. Er bod gwasanaethau ataliol yn gwneud atgyfeiriadau i'r panel perygl (y ceir gwybodaeth fanylach amdano yn adran 2.5), nid oedd hyn mewn ffordd gyson a systematig. Roedd rhai aelodau o'r staff newydd ddarganfod templedi PND, cynlluniau rheoli perygl a thuedd i fod yn agored i niwed ar UMIS. Yn ychwanegol at hyn, roedd ar rai aelodau o'r staff angen hyfforddiant i ddysgu sut i ddefnyddio UMIS.

(2) Dim ond mewn chwarter yr achosion a welsom yr oedd y cynlluniau ymyrryd yn rhoi sylw i ganlyniadau ymddygiad ac effaith troseddau ar ddioddefwyr.

(3) Roedd nifer o'r cynlluniau'n seiliedig ar drefniadau ariannu tymor byr ac, er nad yw hyn yn anghyffredin, roedd yr ansicrwydd yn peri gofid i'r staff. Byddai colli rhai o'r gwasanaethau wedi cael effaith ddifrifol iawn ar waith y GTI.

2.2 Maen prawf cyffredinol:

Caiff iechyd y plant a'r bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu ei hyrwyddo gan waith y TTI a'i bartneriaid.

Roedd gan y GTI un nyrs seiciatrig arbenigol amser llawn, a oedd yn cysylltu'n dda â'r CAMHS lleol a'r gwasanaeth iechyd meddwl i oedolion. Roedd gweithiwr rhan-amser o Brosiect Cyffuriau Abertawe'n ymwneud â nifer o brosiectau camddefnyddio sylweddau.

Cryfderau:

(1) Roedd y nyrs seiciatrig arbenigol yn darparu hyfforddiant staff a gwasanaeth ymgynghorol i'r GTI yn ogystal ag asesiad a thriniaeth unigol i blant a phobl ifanc. Roedd y rhan fwyaf o waith y nyrs yn waith ataliol.

(2) Roedd y nyrs seiciatrig arbenigol yn aelod o'r Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid, a gallai adnabod anghenion iechyd a chyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaethau priodol.

(3) Roedd gweithwyr allweddol brwdfrydig ac ymroddedig yn galluogi plant a phobl ifanc i fanteisio ar nifer o ddewisiadau er mwyn rhoi sylw i faterion yn ymwneud ag iechyd a oedd yn gysylltiedig â PN a thebygolrwydd o aildroseddu, er enghraifft roedd prentisiaethau modern yn Integr8 yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn datrys problemau yn ymwneud

ag alcohol, rheoli dicter a hunan-barch. Gwelwyd atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau emosiynol a gwasanaethau iechyd meddwl mewn saith o'r deg achos a darparwyd ymyriad mewn chwech o'r achosion.

(4) Roedd y gwasanaeth a ddarperid drwy Brosiect Cyffuriau Abertawe a'i weithiwr GTI ymroddedig yn seiliedig ar agwedd eithriadol o eang ac amlbwrpas, gan gynnwys systemau ymyriadau addysgol ac ataliol ar gyfer plant a phobl ifanc, yn ogystal â gwaith unigol a hyfforddiant i staff. Roedd y gwasanaeth yn gallu darparu dyn neu fenyw yn unol â dymuniadau'r plant a'r bobl ifanc a atgyfeiriwyd.

Meysydd i'w gwella:

(1) Ychydig o dystiolaeth o roi sylw i iechyd corfforol a gofnodwyd. Ymddengys bod y trothwy ar gyfer adnabod angen a chefnogi mynediad at wasanaethau yn rhy uchel.

(2) Roedd gan y gwasanaeth CAMHS feini prawf llym ar gyfer cymhwysedd a gwahardd a oedd yn golygu ei bod yn anodd iawn i lawer o blant a phobl ifanc, a fyddai o bosib wedi elwa, gael mynediad at y gwasanaethau. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys plentyn neu berson ifanc a gyfeiriwyd at wasanaeth, ond a fethodd â chadw apwyntiad. Cafodd ei dynnu oddi ar y rhestr yn dilyn hynny a bu'n rhaid ei ailgyfeirio. Roedd yn rhaid cyfeirio pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed at y gwasanaeth i oedolion, ac nid oedd hynny'n ddelfrydol o bell ffordd i'r rhai hynny a oedd, fel llawer o ddefnyddwyr y GTI, yn anaeddfed yn emosiynol.

(3) Dyn oedd y nyrs seiciatrig arbenigol ac roedd rhai o'r menywod ifanc a gyfeiriwyd ato wedi gofyn, neu wedi teimlo, y byddent yn hoffi cael menyw i siarad â hi am faterion personol. Gan nad oedd menyw ar gael roeddent wedi troi eu cefn ar y gwasanaeth hwn.

2.3 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu eu diogelu trwy waith y TTI a'i bartneriaid, i gyfrannu at hyrwyddo eu lles a, lle bo'n briodol, eu diogelwch.

Cryfderau:

(1) Ym mhob un o'r achosion atal a welwyd, roedd gwiriadau wedi'u gwneud gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ac roedd y statws gofal cymdeithasol wedi'i gofnodi. Roedd staff y GTI wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar ac erbyn hyn roeddent yn gallu defnyddio'r gronfa ddata gofal cymdeithasol.

(2) Mewn dau achos, roedd y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ymwneud â'r plant a'r bobl ifanc yn ystod y cyfnod pan oedd y GTI yn ymgysylltu â hwy ac

roedd cyswllt ym mhob achos priodol arall.

(3) Mewn tri o'r pedwar achos lle bu cydweithio, cafodd yr ymyriad ei ddarparu yn unol â'r cynlluniau, cafodd ei gyflawni o fewn amserlenni rhesymol ac roedd cyfathrebu effeithiol rhwng y GTI a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Meysydd i'w gwella:

(1) Yn y deg achos a archwiliwyd gennym, roedd pedwar plentyn a pherson ifanc yn beryglus iddynt eu hunain, neu wedi bod yn beryglus iddynt eu hunain yn y gorffennol, a hynny'n bennaf oherwydd ymddygiad byrbwyll neu ddiffyg ystyriaeth i'w hiechyd a'u diogelwch. Roedd pump wedi bod mewn perygl oherwydd pobl eraill. Er hyn, dim ond un cynllun yn ymwneud â'r duedd i fod yn agored i niwed oedd wedi cael ei baratoi.

(2) Roedd pedwar achos wedi cael eu cyfeirio i sylw'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ac roedd un achos arall a ddylai fod wedi cael ei gyfeirio. Gwelwyd cydweithio effeithiol mewn tri o'r achosion hyn. Ar adegau, roedd y gwasanaethau atal yn cael trafferth i gael y gwasanaethau cymdeithasol i dderbyn atgyfeiriadau, hyd yn oed pan oedd pryderon amlwg ynglŷn â diogelwch. Gwelsom achos lle'r oedd materion yn ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc, a lle galwyd panel perygl. Roedd y gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi gwrthod y gwahoddiad cychwynnol i fynychu'r panel perygl, ond yn dilyn sgyrsiau rhwng rheolwyr priodol datblygwyd cynllun ymyrryd ar y cyd.

2.4 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.

Cryfderau:

(1) Roedd atgyfeiriadau perthnasol wedi cael eu gwneud ar gyfer gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth prif ffrwd ym mhob un o'r achosion a archwiliwyd. Cynigiwyd ymyriad mewn perthynas â phob un o'r atgyfeiriadau ar gyfer addysg brif ffrwd statudol, a hanner yr atgyfeiriadau ar gyfer addysg heb fod mewn ysgol brif ffrwd. Ym mhob achos lle'r oedd angen cefnogaeth i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, roedd y gwasanaethau ataliol yn sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu.

(2) Roedd cyswllt da rhwng gweithiwr addysg y GTI ac ysgolion, pan nad oedd plant a phobl ifanc yn mynychu ysgol, neu pan oeddent wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol, er mwyn eu cael yn ôl i'r ysgol â phresenoldeb rheolaidd.

(3) Ceid ystod eang o gynlluniau cyffrous er mwyn ceisio ennyn diddordeb plant a phobl ifanc y GTI, gan gynnwys cyfres o raglenni a gynhelid yn y Ganolfan

Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd gan y ganolfan amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddangosiadau addysgol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau sylfaenol. Cynigid Gwobr Dug Caeredin a'r Her Gwasanaeth Antur gan Ymyriadau Cyfiawnder Cymunedol Cymru (asiantaeth sy'n bartner i'r GTI) ac roedd yn cyfrannu at yr ystod o wasanaethau ataliol a gynigid gan Integr8 yn y ganolfan a gwaith sgiliau sylfaenol un-i-un. Gwneid defnydd da o'r ganolfan drwy gydol yr wythnos ac yn ystod y penwythnos gan staff y ganolfan ymbresenoli.

(4) Roedd y Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid yn cynnwys uwch staff addysg a oedd yn gallu adnabod anghenion dysgu ychwanegol, megis anawsterau iaith a lleferydd, a chyfeirio plant a phobl ifanc at y gefnogaeth yr oedd arnynt ei hangen.

(5) Roedd gwaith rhagorol yn cael ei wneud gan gynllun mentora'r brentisiaeth fodern. Roedd yn gallu gwneud atgyfeiriadau os oedd ar blant a phobl ifanc angen cymorth arbenigol, er enghraifft gwaith yn ymwneud â sgiliau sylfaenol. Roedd staff y cynllun yn ymwybodol iawn o'r angen i gyflwyno plant a phobl ifanc i ffyrdd eraill o gefnogi pan oedd eu cyfnod ar y rhaglen yn dod i ben, er enghraifft cyfeiriwyd plentyn neu berson ifanc at STORM ar gyfer rhagor o waith (prosiect CAMHS sy'n cynnig cefnogaeth arbenigol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion emosiynol neu anghenion iechyd meddwl ac sy'n arddangos ymddygiad dryslyd). Disgwylid y byddai plant a phobl ifanc yn mynychu popeth y cytunwyd arno yn eu cynllun gweithredu cyn cael eu gwobrwyo â'r gweithgareddau mwy cyffrous.

(6) Roedd y llwybrau a ddarperid gan y rhaglen addysg mewn lleoliad heblaw'r ysgol wedi cael eu hehangu yn ddiweddar a gwelwyd cynnydd sylweddol yn y cyllid. Roedd pob plentyn neu berson ifanc a oedd ar y llwybrau hyn yn cael cynnig 25 awr o amser cyswllt bob wythnos. Rhwng 2006/2007 a 2007/2008 gwelwyd cynnydd o 20% yn nifer y plant a'r bobl ifanc a gwblhaodd y rhaglenni 25 awr. Hyd yn oed pan oedd plant a phobl ifanc yn dewis peidio â mynychu'r pecyn cyfan, gallent gael ystod o gymwysterau, gan gynnwys cymwysterau TGAU, o hyd. Roedd y gwasanaeth yn gwybod yn iawn pa blant a phobl ifanc oedd yn cael eu goruchwylio gan y GTI a gallent roi cyfrif am bresenoldeb a chyrhaeddiad pob un. Roedd y nodwedd hon yn un anarferol o gadarnhaol. Gwelwyd cyrhaeddiad da gan y plant a'r bobl ifanc hyn yng Nghyfnod Allweddol Pedwar.

(7) Roedd Hybu Ymddygiad Cadarnhaol a chynadleddau grŵp teuluol mewn cysylltiad â'r Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid wedi helpu i leihau'r angen am waharddiadau parhaol a lleihau cyfradd y gwaharddiadau.

Meysydd i'w gwella:

(1) Er bod y GTI wedi bod yn ymwneud â lleihau nifer y gwaharddiadau o ysgolion, yn y sampl o achosion a archwiliwyd gennym ni, roedd pedwar plentyn a pherson ifanc wedi cael eu gwahardd yn barhaol neu wedi cael absenoldeb estynedig wedi'i gymeradwyo. Dim ond mewn un achos roedd y GTI a'i bartneriaid wedi cymryd camau er mwyn ailintegreiddio'r disgybl i

mewn i addysg lawn-amser.

(2) Nid oedd cynllun mentora'r brentisiaeth fodern yn cael cymaint o gyhoeddusrwydd ag y gallai fod wedi'i gael.

(3) Unwaith eto, er gwaetha'r gwaith a oedd yn cael ei wneud ar y cyd gan y GTI a'i bartneriaid ym maes addysg, nid oedd rhai plant a phobl ifanc yn manteisio ar y ddarpariaeth addysgol a gynigid iddynt.

Casgliad: Dengys yr asesiad bod y meini prawf hyn yn cael eu cyflawni'n **dda**.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

2.5 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI (neu eraill ar ei ran) yn cynnal gweithgareddau priodol i atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu.

Roedd gwaith gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu, yn cael ei wneud gan nifer o dimau yn y GTI, gan gynnwys y tîm gorchmynion statudol, y Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys, y Ddarpariaeth Adsefydlu ac Ôl-ofal, a'r tîm llysoedd, rhybuddion terfynol a gorchmynion atgyfeirio. Roedd y timau hyn yn gallu manteisio ar wasanaeth y nyrs seiciatrig arbenigol, gweithiwr Prosiect Cyffuriau Abertawe a'r staff addysg a oedd mewn timau eraill. Roeddent hefyd yn gallu gwneud defnydd o'r ymyriadau a ddarperid yn y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid yn ogystal â defnyddio'r ganolfan ar gyfer eu gwaith eu hunain.

Cryfderau:

(1) Ar y cyfan, roedd asesiadau Asset yn cael eu cwblhau mewn pryd ac â thystiolaeth ddigonol ac roedd pob un yn cynnwys o leiaf un cyfweliad gyda'r plentyn neu'r person ifanc. Roedd cysylltiad da gyda rhieni/gofalwyr a'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd pob un o'r asesiadau wedi nodi ffactorau amddiffynnol. Roedd yr holiadur hunanasesu wedi'i gwblhau gan dri chwarter y plant a'r bobl ifanc. Roedd hil ac ethnigrwydd yn cael eu cofnodi'n glir ac ymdrinnid â materion amrywiaeth yn dda.

(2) Roedd bron bob un o'r cynlluniau ymyrryd wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlen a bennwyd ac roedd ganddynt raglenni i atal troseddu. Roedd mwy na thri chwarter yr asesiadau Asset a'r cynlluniau ymyrryd wedi cael eu hadolygu o fewn yr amserlen safonol genedlaethol.

(3) Roedd materion yn ymwneud ag amrywiaeth, ffactorau a allai arwain at wahaniaethu, neu a allai roi rhywun dan anfantais, ac anghenion unigol eraill wedi cael eu hasesu ac roedd trefniadau llawn dychymyg wedi cael eu gwneud er mwyn lleihau eu heffaith ym mhob achos. Roedd staff y GTI yn

dda iawn am ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a oedd ag anawsterau dysgu, ADHD a rhai ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig a, lle bo'n briodol, roeddent yn gofyn am gyngor gan y tîm anabledd dysgu plant. Rhoddid sylw i faterion yn ymwneud â rhyw. Defnyddid dehonglwyr a chyfieithwyr lle'r oedd hynny'n briodol. Roedd y staff yn sensitif i anghenion diwylliannol a chrefyddol.

(4) Roedd amlder apwyntiadau'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol ym mhob un o'r achosion a welwyd ac yn helpu i gyflawni amcanion y cynllun ymyrryd mewn mwy na thri chwarter yr achosion. Roedd y trefniadau gorfodaeth yn gyson, a phan oedd hynny'n briodol, cymerwyd camau amserol ym mhob achos.

(5) Roedd y cynllun rhybudd terfynol yn gweithio'n dda ar y cyfan a defnyddiai ddull clinig rhybudd terfynol lle'r oedd y plant a'r bobl ifanc yn mynychu clinig gyda'u rhieni/gofalwyr ac yn cael eu gweld gan arolygydd yr heddlu a'r swyddog rhybudd terfynol. Ym mhob un o'r achosion rhybudd terfynol a welwyd, roedd y rhybuddion wedi cael eu rhoi o fewn y safon genedlaethol o 20 diwrnod gwaith. Roedd ymyriadau wedi'u darparu'n briodol yn hanner yr achosion a welsom.

(6) Roedd y panel troseddwyr ifanc yn cael ei reoli'n briodol ac roedd y gwirfoddolwyr, a oedd ar y panel, wedi cael eu hyfforddi'n dda ac yn cael cefnogaeth dda. Roedd adroddiadau ysgrifenedig ar gael ar gyfer pob panel ac roedd yr adroddiadau a welsom ni'n rhai da. Roedd llai na chwarter y paneli wedi methu â chyfarfod o fewn yr 20 diwrnod a oedd yn ofynnol ac roedd hyn yn aml oherwydd absenoldeb y plentyn neu'r person ifanc. Roedd rhieni/gofalwyr yn mynychu'r paneli ym mhob un bron o'r achosion a welsom. Roedd yr ymyriadau'n canolbwyntio yn y rhan fwyaf o'r achosion ar atal aildroseddu. Roedd y panel terfynol, a fynychwyd fel rhan o'r arolygiad, yn cael ei reoli'n dda ac roedd aelodau'r panel yn ymdrin â'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw mewn modd sensitif ond uniongyrchol. Dangosasant hefyd bryder priodol pan oedd rhiant/gofalwr, ond nid y plentyn neu'r person ifanc, yn mynychu panel cychwynnol. Eglurasant y sefyllfa gyfreithiol wrthi yn ogystal â rhoi sicrwydd bod y rheolwr yn ymdrin â'r problemau posib a oedd yn ymwneud â diogelu.

(7) Roedd nifer o wahanol ymyriadau, gan gynnwys ymyriadau unigol yn defnyddio rhaglenni gwaith cydnabyddedig ar gyfer ymwybyddiaeth o ddioddefwyr a rheoli dicter. Roedd y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid yn darparu ac yn cyfrannu at nifer o wahanol raglenni a gwasanaethau'r GTI, gan gynnwys y Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys a'r Ddarpariaeth Adsefydlu ac Ôl-Ofal a gweithgareddau ar gyfer unigolion a grwpiau. Roedd hwn yn cael ei weld fel maes lle ceid arferion da a cheir gwybodaeth fanwl amdano mewn rhan gynharach o'r adroddiad hwn. Roedd nifer o blant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio at DoJo, darparwr yn gweithio dan gontract a oedd yn darparu rhaglenni yn ymwneud â hunan-barch, rheoli dicter a sgiliau cymdeithasol drwy weithgareddau yn seiliedig ar ymarfer corff gan gynnwys celfyddydau brwydro. Roedd dau aelod o staff y GTI wedi'u lleoli gyda hwy a dywedwyd wrthym gan reolwyr achosion bod y plant a'r bobl ifanc y buont yn gweithio gyda hwy wedi elwa o ganlyniad i ddefnyddio'r gwasanaeth. Roedd rhaglenni penodol wedi cael eu datblygu ar gyfer merched ifanc i'w helpu i

ddelio gyda rheoli dicter.

(8) Roedd GTI Abertawe wedi datblygu ei Raglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys ei hun yn ddiweddar, ar ôl bod yn rhan o Gonsortiwm mawr ar gyfer De Cymru cyn hynny. Roedd angen gwneud hyn yn dilyn newidiadau i ddiffiniad y BCI o gonsortiwm. Teimlid bod y Rhaglen yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i waith gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi cyflawni trosedd, yn enwedig wrth ddarparu goruchwyliaeth ddwys ar lefel uchel fel rhan o'r broses o reoli achosion risg uchel.

(9) Roedd panel perygl dan gadeiryddiaeth dirprwy reolwr y GTI yn ystyried pob achos lle'r oedd pryder ynglŷn â thuedd y plentyn neu'r person ifanc i fod yn agored i niwed a'r PND yr oedd yn ei achosi iddo ef ei hun neu i bobl eraill. Roedd hwn yn datblygu i fod yn fforwm amlasiantaethol, lle'r oedd cynlluniau'n cael eu datblygu er mwyn rheoli PND a thuedd i fod yn agored i niwed, a hefyd er mwyn adolygu hyn ar adegau rheolaidd neu yn dilyn newid neu ddigwyddiad o bwys.

(10) Roedd sylw wedi cael ei roi i anghenion llety ym mhob achos priodol, ac roedd y GTI yn ymwneud â nifer o grwpiau llety gan gynnwys Strategaeth Digartrefedd Abertawe a grŵp comisiynu ar gyfer anghenion cymhleth Cefnogi Pobl Abertawe. Roedd yr olaf wedi cytuno i gynnwys plant a phobl ifanc a oedd yn ymwneud â'r GTI fel grŵp blaenoriaeth.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd PND a thebygolrwydd o aildroseddu'n cael eu cymysgu weithiau. Nid oedd difrifoldeb y trosedd yn cael ei ystyried bob tro fel rhan o'r asesiad PND. Roedd nifer o achosion lle'r oedd PND yn un o nodweddion yr achos a'r perygl wedi cael ei asesu. Fodd bynnag, mewn tri o'r wyth achos perthnasol nid oedd y PN wedi'i raddio'n dda ac roedd yr asesiad PND heb gael ei gwblhau'n ddigonol mewn mwy na hanner y rhain.

(2) Nid oedd pob achos perthnasol yn cael ei drafod gan y panel perygl ac yn hanner yr achosion nid oedd cynllun rheoli perygl, er bod cofnodion cyfarfodydd y panel i'w gweld mewn nodiadau achosion fel rheol. Ychydig o adolygiadau a welwyd. Dim ond un achos PND mawr / mawr iawn a welsom, ac yn yr achos hwn teimlid nad oedd digon o dystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd gan y rheolwyr.

(3) Nid oedd cynlluniau ymyrryd ar y cyfan yn cael eu cyflwyno ar sail y canlyniad terfynol ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn fwy o restr o bethau i'w gwneud yn hytrach na chynllun ag amcan CAMPUS. Dim ond hanner y cynlluniau ymyrryd oedd ag amcan a oedd yn seiliedig ar ganlyniad, a dim ond eu chwarter oedd wedi cael eu gosod mewn trefn briodol. Nid oedd y GTI yn gallu darparu ymyriad drwy gyfrwng y Gymraeg.

(4) Roedd y tîm rhybuddion terfynol yn cynnal yr asesiad Asset o blant a phobl ifanc yn amodol ar orchmynion atgyfeirio ac yn ysgrifennu adroddiadau'r panel. Roedd hyn yn achosi oedi cyn i'r rheolwr achos ddechrau ymwneud â'r mater ac yn cyflwyno haen ddiangen o lafur wrth asesu a darparu ymyriadau

i blant a phobl ifanc.

(5) Dywedodd aelodau o'r panel troseddwyr ifainc wrthym fod penderfyniad polisi wedi'i wneud na ddylai plant a phobl ifanc ymwneud â thasgau gwneud iawn â'r gymuned, ac roedd llai nag un rhan o dair o'r achosion a welsom ni'n cynnwys tystiolaeth o wneud iawn â dioddefwyr a/neu'r gymuned ehangach.

(6) Roedd dolenni cyswllt gwan yn y system rhybudd terfynol o bryd i'w gilydd pan nad oedd arolygydd yr heddlu ar gael oherwydd ymrwymiadau gweithredol eraill. Roedd y mater hwn yn cael ei drafod gan yr heddlu a'r GTI.

2.6 Maen prawf cyffredinol:

Caiff iechyd plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y TTI.

Cryfderau:

(1) Roedd anghenion emosiynol ac anghenion iechyd meddwl yn cael eu hadnabod yn dda ar y cyfan ac roedd asesiadau cadarn yn cael eu gwneud. Yn yr achosion a welwyd, gwnaethpwyd pum atgyfeiriad ar gyfer asesiadau anghenion emosiynol ac anghenion iechyd a darparwyd ymyriadau mewn pedwar o'r achosion hyn. Cyfeiriwyd plant a phobl ifanc at ymyriadau y tu allan i'r GTI mewn dau achos. Roedd gwasanaethau fel CAMHS yn cael eu darparu. Ymatebid i atgyfeiriadau yn fuan, ac yn 2007/2008 gwelwyd pob atgyfeiriad aciwt o fewn y targed o bum diwrnod a phob atgyfeiriad heb fod yn aciwt cyn pen y targed o 15 diwrnod.

(2) Roedd y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau ar gyfer ymyriadau arbenigol yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a dyma hefyd y ganran uchaf o'r ymyriadau a ddarparwyd. Mewn bron i dri chwarter yr ymyriadau hyn, roedd y plant a'r bobl ifanc wedi cael eu cymell i beidio â chamddefnyddio sylweddau. Darparwyd pob ymyriad o fewn y targed o 15 diwrnod.

(3) Roedd cyfle da i blant a phobl ifanc a oedd â phatrymau troseddu a oedd yn gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau fanteisio ar gefnogaeth a thriniaeth, gan gynnwys cymorth gan y nyrs arbenigol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Meysydd i'w gwella:

(1) Ychydig iawn o ystyriaeth a roddid i anghenion iechyd corfforol. Dim ond mewn dau o'r achosion a welwyd y nodwyd anghenion iechyd corfforol a chyfeiriad ar gyfer asesiadau arbenigol yn y GTI, a dim ond mewn un achos y darparwyd ymyriad.

(2) Roedd SQIFA a SIFA ar gael ac yn cael eu defnyddio yn y GTI, ond dim ond mewn un o'r pum atgyfeiriad ar gyfer asesiad emosiynol neu asesiad iechyd a welwyd yr oeddent wedi cael eu defnyddio.

(3) O ran atgyfeiriadau am asesiad ar gyfer y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, roedd data'r BCI yn dangos bod hyn yn cael ei wneud yn 75% o'r achosion er bod y targed yn 95%.

(4) Roedd y GTI yn gwneud defnydd helaeth o DoJo ar gyfer gwaith yn ymwneud â hunan-barch, rheoli dicter a sgiliau cymdeithasol. Roedd yr asiantaeth wirfoddol hon yn cyfuno gwaith yn seiliedig ar ymarfer corff, gan gynnwys celfyddydau brwydro, ynghyd â rhaglennu niwroieithyddol. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth sylfaenol ar gyfer rhaglennu niwroieithyddol wedi cael ei chadarnhau eto, ac er bod y staff wedi cael eu hyfforddi, wedi cael trwydded i ymarfer, ac yn cael eu goruchwylio gan ymgynghorydd allanol, mae angen i'r GTI ddal i fonitro'r gwasanaeth hwn yn ofalus.

2.7 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu diogelu trwy waith y TTI i gyfrannu at eu lles a, lle bo'n briodol, eu diogelwch.

Cryfderau:

(1) Roedd statws gofal cymdeithasol y plentyn neu'r person ifanc wedi'i gofnodi ym mhob un o'r achosion perthnasol.

(2) Roedd plant a phobl ifanc wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau gofal cymdeithasol mewn mwy na thri chwarter yr achosion priodol.

Meysydd i'w gwella:

(1) Er bod statws gofal cymdeithasol pob un o'r plant a'r bobl ifanc wedi cael ei wirio yn y sampl o achosion, mewn mwy na thri chwarter yr achosion, roedd y gwiriadau hyn wedi cael eu gwneud o'r blaen ac nid mewn perthynas â'r gorchymyn penodol a oedd dan ystyriaeth.

(2) Gwelsom dystiolaeth fod y plentyn neu'r person ifanc, mewn mwy nag un rhan o dair o'r achosion a archwiliwyd, yn beryglus iddo ef ei hun, neu wedi bod yn beryglus iddo ef ei hun yn y gorffennol, a hynny'n bennaf oherwydd camddefnyddio cyffuriau. Roedd hanner y plant a'r bobl ifanc yn wynebu perygl o niwed gan bobl eraill, neu wedi wynebu perygl o'r fath yn y gorffennol. Fodd bynnag, dim ond mewn ychydig dros draean o'r achosion

perthnasol yr oedd cynlluniau tuedd i fod yn agored i niwed i'w gweld. Ambell waith roedd sylw'n cael ei roi i'r problemau, ond nid oedd adroddiad llawn yn cael ei wneud fel rhan o'r cynllun gweithredu ynglŷn â'r duedd i fod yn agored i niwed. Roedd rhai adroddiadau i'w gweld yn y llyfr cysylltiadau, ond roedd hwn yn fater gwahanol ac nid oedd yn rhoi sylw i reoli'r duedd i fod yn agored i niwed fel rhan o gynllun gweithredol.

(3) Ar brydiau, roedd y rheolwyr achosion yn cael anhawster i gael y gwasanaethau gofal cymdeithasol i dderbyn atgyfeiriadau, hyd yn oed pan oedd hi'n amlwg bod pryderon yn ymwneud â diogelu, ac nid oedd cydweithio'n digwydd ym mhob achos perthnasol.

2.8 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.

Roedd y gweithwyr Cadw Mewn Cysylltiad wedi'u lleoli yn y tîm atal, ond roeddent yn ymwneud â phob agwedd ar waith y GTI yn ôl y galw.

Cryfderau:

(1) Dim ond un plentyn neu berson ifanc yn y sampl a welwyd yn ystod yr arolygiad oedd ag AAA. Roedd nifer yr anghenion addysgol a nodwyd fel a ganlyn: pump ar gyfer addysg statudol brif ffrwd, dim ar gyfer addysg statudol arall, naw ar gyfer addysg a hyfforddiant 16+ a saith ar gyfer cyflogaeth. Gwnaethpwyd atgyfeiriadau priodol yn y GTI yn nhri chwarter yr achosion hynny. Darparwyd ymyriadau ym mhob un o'r achosion ac roeddent yn hybu cyfleoedd dysgu a chyraeddiadau. Gwnaethpwyd nifer o atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau arbenigol y tu allan i'r GTI a darparwyd ymyriadau yn yr holl achosion hyn.

(2) Roedd cysylltiadau adeiladol rhwng y gweithwyr Cadw Mewn Cysylltiad a staff Uned Cyfeirio Disgyblion Cyfnod Allweddol Pedwar. Roedd y gweithwyr Cadw Mewn Cysylltiad hefyd wedi sefydlu cysylltiadau da iawn gyda Choleg Abertawe, ac roedd protocol clir ar gyfer rhannu gwybodaeth. Roedd hyn wedi golygu bod mwy o blant a phobl ifanc o'r GTI yn mynychu'r coleg. Roedd cysylltiadau cadarnhaol iawn hefyd gyda Gyrfa Cymru.

(3) Roedd plant a phobl ifanc ar y Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys yn cael mynediad da iawn at ystod eang o gymwysterau priodol. Roedd y GTI yn prynu arweiniad a chefnogaeth i'r cwricwlwm a phrofion llinell sylfaen ar gyfer plant a phobl ifanc ar y Rhaglen gan staff yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Roedd y staff hyn yn creu cynllun dysgu unigol ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc, ac roedd y cynllun hwn yn cael ei drafod gyda'r Pennaeth Mynediad a Dysgu. Roedd y plant a'r bobl ifanc a oedd ar y Rhaglen i gyd yn cael mynediad da at gymwysterau TGAU, lle'r oedd hynny'n briodol, ac ystod eang o gymwysterau lefel mynediad. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau Rhwydwaith Cenedlaethol y Coleg Agored mewn mecaneg, adeiladu a chynnal a chadw.

(4) Roedd presenoldeb a gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r rhaglen addysg mewn lleoliad heblaw'r ysgol yn cael ei fonitro'n dda gan staff yn yr awdurdod lleol ac roedd nifer y plant a'r bobl ifanc a oedd yn cael 25 awr yr wythnos o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth wedi cynyddu o 52% i 73%.

Meysydd i'w gwella:

(1) Nid oedd pob plentyn a pherson ifanc yn manteisio ar y rhaglen lawn o addysg mewn lleoliad heblaw'r ysgol a gynigid gan yr awdurdod lleol. Roedd hyn yn aml oherwydd anawsterau personol amrywiol, er enghraifft camddefnyddio sylweddau.

(2) Roedd rhywfaint o oedi cyn cael cymorth i blant a phobl ifanc oedd ag ADHD posibl gan fod pob atgyfeiriad yn gorfod mynd drwy'r pediatregydd cymunedol. Roedd rhestr aros hir ac os oedd rhieni/gofalwyr yn colli apwyntiad roedd yn rhaid cael atgyfeiriad arall o'r newydd.

Casgliad: Dengys yr asesiad bod y meini prawf hyn yn cael eu cyflawni'n **ddigonol**.

Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

2.9 Maen prawf cyffredinol:

Caiff rhieni/gofalwyr eu cefnogi i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol eu plant.

Roedd y GTI wedi cydnabod yn y dystiolaeth a ddarparwyd cyn yr arolygiad bod hwn yn faes gwaith yr oedd angen ei ddatblygu a bod angen buddsoddi ynddo.

Cryfderau:

(1) Roedd y GTI yn ceisio cael rhieni/gofalwyr i gymryd rhan yn yr ymyriadau gyda phlant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o droseddu neu a oedd wedi troseddu.

(2) Roedd gweithwyr allweddol yn y gwasanaeth atal yn cynnal ymweliadau cartref rheolaidd fel rhan o'r asesiad cychwynnol ac roedd ffeiliau'r achosion yn dangos bod pob rhiant/gofalwr, lle'r oedd hynny'n briodol, yn cael ei hysbysu ynglŷn â gofynion yr ymyriadau a'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud.

(3) Roedd y gwasanaethau ataliol yn ceisio hybu cysylltiad â rhieni/gofalwyr. Roedd gan y gynhadledd grŵp teuluol yn fwyaf arbennig ddull cynhwysol iawn, a oedd yn cynnwys aelodau o'r teulu estynedig, os oedd angen, a chafwyd rhai sylwadau cadarnhaol: *"Rwyf wedi gwneud sgiliau magu plant yn y GTI ac mae wedi gweithio'n dda i mi. Roedden nhw'n ddefnyddiol iawn gyda*

fy ŵyr i."

(4) Roedd y tîm ymddygiad anghymdeithasol hefyd yn gweithio er mwyn ategu cyfrifoldebau rhieni/gofalwyr ac roedd cysylltiadau clir â chymorth tenantiaeth a chymdogaeth. Ymyriad teuluol a oedd yn cael ei gomisiynu gan y tîm oedd Breakout, a'i nod oedd gweithio gyda theuluoedd yn ystod penwythnos gweithgareddau. Roedd yn rhoi cyfle i'r teulu weithio gyda'i gilydd fel tîm ac i rieni/gofalwyr weld sut mae gweithwyr proffesiynol yn rheoli plant a phobl ifanc.

(5) Roedd nifer o raglenni magu plant y gellid eu defnyddio, er enghraifft: rhai a oedd yn cael eu trefnu gan y Tîm Cefnogi Pobl Ifanc yn y Gymuned (tîm yn ymwneud â gofal cymdeithasol); prosiect mentora rhieni/gofalwyr gan gymheiriaid yn cael ei drefnu gan Wasanaeth Cyngor Gwirfoddol Abertawe (nid oedd cymaint o'r cymorth hwn wedi bod ar gael yn ddiweddar ond roedd gwirfoddolwyr newydd yn cael eu hyfforddi); grŵp tadau ifanc; a Breakout (yr ymyriad teuluol yn seiliedig ar weithgareddau y cyfeiriwyd ato uchod).

(6) Roedd un aelod o'r staff yn gwneud rhywfaint o asesiadau ac ymyriadau penodol wedi'u teilwra'n arbennig ac yn cael canlyniadau cadarnhaol.

Meysydd i'w gwella:

(1) Nid oedd agwedd gydlynol at fagu plant, na strategaeth amlasiantaethol, ac ychydig o dystiolaeth a welwyd o asesiadau magu plant yn cael eu gwneud gan reolwyr achosion.

(2) Nid oedd rhai o'r staff a oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu yn ymwybodol iawn o'r ymyriadau penodol a oedd ar gael. Dim ond tri rhiant/gofalwr yn sampl yr arolygiad gafodd eu cyfeirio ar gyfer ymyriad a dim ond un gafodd ymyriad ffurfiol.

(3) Ymwelwyd â chartrefi yn ystod yr ymyriadau, a rhoddwyd cyngor a chefnogaeth i'r rhieni/gofalwyr yn ystod y trafodaethau. Nid oedd tystiolaeth o hyn bob amser wrth gofnodi achosion ac nid oedd i'w weld bob amser fel ymyriad magu plant.

Casgliad: Dengys yr asesiad bod y maen prawf hwn yn cael ei gyflawni'n **ddigonol**.

Canlyniadau gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

2.10 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI yn hyrwyddo ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth am y gwasanaethau a dderbynnir ganddynt, a defnyddir y wybodaeth hon i wella canlyniadau.

Cryfderau:

(1) Roedd rhai timau'n gofyn am adborth yn rheolaidd gan ddefnyddwyr gwasanaeth am eu cysylltiad â'r GTI, yn enwedig y tîm gorchmynion statudol, y tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol, y cynadleddau grŵp teuluol a'r Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid.

(2) Roedd y GTI yn datblygu trefniadau sicrhau ansawdd cadarnhaol drwy reolwr perfformiad a oedd yn adolygu achosion yn annibynnol ac yn gofyn am adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Roedd eiriolwyr cymheiriaid hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc yn yr adolygiadau hyn ac yn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Roedd y gwaith hwn yn gymharol newydd, ond roedd eisoes yn cael rhyw gymaint o effaith ar ddulliau gweithio.

(3) Roedd y GTI wedi bod yn ymwneud â Phrifysgol Abertawe ers ei ddyddiau cynnar, ac roedd wedi ymwneud â nifer o brosiectau ymchwil ac wedi gwerthuso nifer o ddatblygiadau. Roedd y rhain wedi cael eu defnyddio fel sail i arferion gweithio ac er mwyn gwella ceisiadau ar gyfer datblygiadau parhaus.

(4) Roedd ymchwilydd o Brifysgol Abertawe wedi'i leoli yn y GTI yn rhan-amser a chytunid bob blwyddyn pa feysydd gwaith fyddai'n cael eu monitro a'u gwerthuso. Roedd hefyd yn ymwneud â phrosiect ymchwil hirdymor cynhwysfawr iawn yn edrych ar y rhan a chwaraeid gan blant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau. Roedd hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc a oedd yn ymwneud â'r GTI yn ogystal â Phlant sy'n Derbyn Gofal, ysgolion a grwpiau cymunedol. Roedd y canfyddiadau cychwynnol eisoes yn dylanwadu ar gynlluniau'r GTI i wella'r broses o ymgynghori â phlant a phobl ifanc a'u cyfranogiad.

(5) Roedd y GTI wedi dewis bod yn rhan o astudiaeth o garfan o bobl ifanc, ac roedd hyn yn rhoi cyfle i'r GTI fonitro aildroseddu'n barhaus.

Meysydd i'w gwella:

(1) Er bod rhywfaint o wybodaeth am berfformiad yn cael ei chasglu'n rheolaidd, yr hyn nad oedd yn cael ei wneud mewn ffordd systematig eto oedd coladu gwybodaeth am blant a phobl ifanc unigol a chanlyniadau ymyriad y GTI yn eu bywydau.

(2) Roedd rhywfaint o anghysonder wrth gwblhau Assets/Onsets adolygu a chwblhau, cynlluniau ymyrryd a chynlluniau cymorth unigol yn golygu nad oedd gwybodaeth werthfawr am gynnydd ar gael ar gyfer gwaith coladu a gwerthuso.

2.11 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned.

Cryfderau:

(1) Roedd troseddau ieuenctid wedi gostwng 50% ers 2001/2002, ac roedd troseddau yn y bandiau difrifoldeb gwaethaf wedi gostwng 85%. Roedd hyn wedi cyfrannu at ostyngiad cyffredinol o 25% yng nghyfanswm y troseddau yn Abertawe yn ystod y tair blynedd diwethaf.

(2) Roedd cyfanswm y plant a'r bobl ifanc a oedd wedi troseddu wedi gostwng o 606 yn 2005/2006 i 531 yn 2007/2008, ac roedd cyfanswm y troseddau wedi gostwng o 1437 i 968 yn ystod yr un cyfnod. Roedd nifer y troseddwyr ifanc cyson wedi gostwng o 83 i 61. O ganlyniad, roedd nifer eisteddiadau wythnosol y Llys Ieuenctid wedi gostwng o bump i dri. Roedd nifer yr achosion o gadw ar remand yn y ddalfa yn ystod yr un cyfnod wedi'i haneru bron i 14.

(3) Yn 2006/2007 gwnaethpwyd 890 o atgyfeiriadau i'r tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd y cyfanswm yn 2007/2008 yn 604. Roedd nifer y gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gostwng yn gyffredinol ac ni welwyd yr un yn ymwneud â phlant neu bobl ifanc yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

(4) Yn y ffeiliau atal a archwiliwyd gennym, dim ond mewn un achos yr oedd ymddygiad y plentyn neu'r person ifanc wedi arwain at ymyriad mwy cyfyngol a lleihau'r peryglon a oedd yn ymwneud â diogelwch. Nid oedd unrhyw blentyn na pherson ifanc wedi cael ei geryddu neu ei ddyfarnu'n euog o drosedd yn ystod y cyfnod yr oedd y GTI yn ymwneud ag ef. Roedd mwy na thri chwarter y plant a'r bobl ifanc wedi cydymffurfio â gofynion y rhaglen atal. Roedd pob asesiad Onset a ail-sgoriwyd yn dangos gwelliant ers yr asesiad Onset cyntaf. O ran ffactorau troseddegol, roedd y cynnydd mwyaf i'w weld yng nghyswllt perthynas deuluol a pherthynas bersonol.

(5) Yn y gwaith gyda phlant neu bobl ifanc a oedd wedi troseddu, gwelsom na fu cynnydd mewn ymyriadau cyfyngol yn nhri chwarter yr achosion. Roedd llai nag un rhan o dair o'r plant a'r bobl ifanc wedi'u dyfarnu'n euog o drosedd yn ystod eu gorchmynion ac mewn mwy na hanner yr achosion gwelwyd newid cadarnhaol amlwg mewn ymddygiad ac agweddau.

(6) Roedd llety wedi gwella ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc berthnasol a oedd yn derbyn gwasanaethau ataliol ac ar gyfer hanner y plant a'r bobl ifanc a oedd wedi troseddu.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd llai na dwy ran o dair o'r plant a'r bobl ifanc a oedd wedi troseddu yn cydymffurfio â gofynion y gorchymyn.

(2) Roedd y manteision i'r gymuned o ganlyniad i orchymyn y plentyn neu'r person ifanc yn amrywio'n fawr. Ychydig o ddefnydd oedd yn cael ei wneud o brosesau gwneud iawn â'r gymuned a dim ond rhywfaint o leihad a welwyd yn nifrifoldeb ac amlder troseddu yn yr achosion a archwiliwyd.

(3) O ran ffactorau troseddegol i blant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu, ychydig iawn o gynnydd sylweddol oedd wedi cael ei wneud yn yr achosion a welsom ni ym mhob un o'r tri ffactor blaenoriaeth, ac roedd mwy na hanner pob ffactor yn dangos 'dim newid' neu 'ddirywiad'.

Casgliad: Dengys yr asesiad bod y meini prawf hyn yn cael eu cyflawni'n **dda**.

3. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SYDD WEDI CAEL DEDFRYD O GARCHAR

3.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI (neu eraill ar ei ran), yn cynnal gweithgareddau priodol yn ystod cyfnod y ddedfryd yn y ddalfa, i atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu.

Aseswyd deg achos o gadw yn y ddalfa fel rhan o'r arolygiad hwn. Roedd pob un o'r plant a'r bobl ifanc wedi cyrraedd cyfnod cymunedol eu dedfryd neu wedi'i gwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r bechgyn a'r dynion ifanc yn treulio'u cyfnod yn y ddalfa yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ashfield, ac roedd y merched ifanc yn treulio'u cyfnod yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Eastwood Park. Cyfwelwyd pedwar plentyn a pherson ifanc yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ashfield. Dywedodd y GTI fod pob plentyn a pherson ifanc dan Orchymyn Cadw a Hyfforddi a oedd yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa'n cael ei symud i adain yr oedolion. Roedd hyn yn cael effaith ddifrifol ar y plant a'r bobl ifanc hyn sy'n symud o'r system Gorchymyn Cadw a Hyfforddi i gyfundrefn ar gyfer pobl ifanc na all roi sylw i gynlluniau addysg/hyfforddiant parhaus neu drefniadau Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro. Roedd Rheolwyr TTIau Cymru yn ystyried y broblem hon gyda'i gilydd.

Cryfderau:

(1) Roedd strategaethau cyfathrebu gyda'r sefydliadau diogel yn cael eu datblygu ar gyfer De Cymru, a gellid gweld yn barod bod y berthynas rhwng gwahanol gyrff yn gwella.

(2) Roedd asesiadau Asset yn cael eu cwblhau yn unol â safonau cenedlaethol ym mhob un bron o'r achosion a welwyd. Roedd hil ac ethnigrwydd, amrywiaeth a ffactorau a allai arwain at wahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc, neu eu rhoi dan anfantais, yn cael eu cofnodi ym mhob un. Roedd anghenion unigol eraill wedi cael eu hasesu'n gynnar ac roedd cynlluniau wedi'u gwneud er mwyn lleihau eu heffaith yn y rhan fwyaf o'r achosion.

(3) Roedd y GTI wedi'i gysylltu'n electronig ac roedd gwybodaeth yn cael ei hanfon yn electronig at y BCI a'r sefydliadau diogel. Roedd systemau wedi cael eu sefydlu er mwyn hysbysu'r GTI ynglŷn ag unrhyw wybodaeth a oedd ar goll a derbynnid derbynebau e-bost am wybodaeth.

(4) Roedd ffactorau perygl penodol yn cael eu cyfathrebu'n llafar ac yn ysgrifenedig i'r sefydliadau diogel cyn pen 24 awr ar ôl i'r plentyn neu'r person ifanc gyrraedd ym mhob achos priodol.

(5) O'r wyth cynllun hyfforddiant cychwynnol a welwyd, roedd y rhan fwyaf wedi

cael eu cwblhau o fewn amserlenni priodol ac roeddent yn amlinellu'n glir pwy fyddai'n darparu'r ymyriadau. Mewn chwech o'r wyth achos, roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi gweld y cynllun ac wedi'i arwyddo. Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyfforddiant yn amlinellu sut y byddid yn mynd i'r afael â'r tebygolrwydd o aildroseddu ac ailintegreiddio yn y gymuned.

(6) Roedd y cydweithio a welwyd rhwng staff y GTI a staff sefydliadau hyfforddi diogel er mwyn mynd i'r afael ag achosion o gamddefnyddio sylweddau ac alcohol yn dda ar y cyfan. Roedd y Ddarpariaeth Adsefydlu ac Ôl-ofal yn darparu gwasanaeth parhaus i blant a phobl ifanc pan oeddent yn y ddalfa ac yn darparu pont ddefnyddiol iawn wrth wneud cynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r gymuned. Roedd protocol defnyddiol rhwng y GTI a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc a oedd yn disgrifio'u rhyngwyneb ac yn amlinellu eu cyfrifoldebau unigol. Roedd y Ddarpariaeth Adsefydlu ac Ôl-ofal yn gweithio'n dda gyda thîm camddefnyddio sylweddau Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc er mwyn darparu sesiynau ar y cyd i blant a phobl ifanc a oedd yn y ddalfa. Roedd Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc wedi cyfeirio at effeithiolrwydd y gwasanaeth.

(7) Cymerid rhan mewn adolygiadau, yn enwedig adolygiadau terfynol a gwelwyd rhai enghreifftiau o bresenoldeb asiantaethau eraill, gan gynnwys iechyd, addysg, tai (cynrychiolydd o brosiect tai Barnardo's yn fwyaf arbennig), y Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys a'r Ddarpariaeth Adsefydlu ac Ôl-Ofal. Roedd y gweithiwr cymdeithasol a benodwyd yn bresennol yn yr adolygiad terfynol yn yr un achos perthnasol.

(8) Roedd y cysylltiadau gyda phlant a phobl ifanc yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol ym mhob un bron o'r achosion a welwyd.

(9) Gwelwyd enghreifftiau o gyswllt gofalus rhwng lleoliadau diogel, y GTI a'r awdurdod lleol. Roedd y rhaglen addysg mewn lleoliad heblaw'r ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn dda am gadw mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc a oedd yn cael eu hanfon i'r ddalfa er mwyn iddynt allu ailgydio yn eu rhaglenni'n fuan ar ôl dychwelyd i'r gymuned. Roedd swyddogion yr awdurdod lleol yn rhoi cefnogaeth dda i staff Uned Ddiogel Hillside ac yn parhau i weithio gyda'r plant a'r bobl ifanc. Roedd hyn yn sicrhau dilyniant pan fyddent yn dychwelyd i'r gymuned.

(10) Roedd gweithiwr y GTI yn asesu anghenion llety ac yn gweithio gydag eraill er mwyn sicrhau llety priodol ym mhob un bron o'r achosion perthnasol.

Meysydd i'w gwella:

(1) Nid oedd y cysylltiadau gyda Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ashfield mor hyblyg. Roedd yn bellach i ffwrdd ac roedd yn anos cadw mewn cysylltiad â'r plant a'r bobl ifanc. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth fod rheolwyr achosion ac uwch reolwyr yn gwneud eu gorau i wella pethau. Roedd tensiwn penodol gyda Sefydliad Troseddwyr Ifanc Eastwood Park ynglŷn â threfniadau ymweld.

(2) Yn yr asesiad Asset, dim ond pedwar plentyn a pherson ifanc a wahoddwyd i lenwi'r ffurflen *What do you think?* a dim ond tri ohonynt a lenwodd y ffurflen.

Roedd mwy nag un rhan o dair o'r asesiadau Asset o safon annigonol.

(3) Er bod y PND wedi'i nodi fel canolig i fawr mewn pedwar achos, dim ond un cynllun rheoli perygl oedd wedi cael ei gwblhau, ac yn ôl yr asesiad nid oedd hwnnw'n gynllun cynhwysfawr.

(4) Darparwyd Asset craidd cyfredol i'r sefydliad diogel cyn pen awr ar ôl i'r plentyn neu'r person ifanc gyrraedd mewn llai na thri chwarter yr achosion a welwyd. Roedd y dogfennau perthnasol eraill a ddarperid cyn pen 24 awr yn amrywio; mewn dau achos ni ddarparwyd yr adroddiadau cyn dedfrydu a'r adroddiadau ar ôl llys; mewn pedwar achos ni ddarparwyd collfarnau blaenorol na chynlluniau iechyd neu addysg. Nid oedd y GTI yn cofnodi'n systematig yn nodiadau'r achosion bod y wybodaeth wedi'i hanfon.

(5) Mewn tri achos, nid oedd y gweithiwr GTI yn bresennol yng nghyfarfod y cynllun hyfforddiant cychwynnol ac ni chyfrannodd ato, a hynny'n bennaf gan nad oedd y sefydliad diogel yn fodlon newid y dyddiad a'r amser er mwyn y GTI. Dim ond mewn un achos y mynegwyd barn y cartref, a'r gwasanaethau addysg ac iechyd ac, yn un o'r ddau achos perthnasol, cafodd gweithiwr cymdeithasol y plentyn neu'r person ifanc fod yn bresennol a chyfrannu at y cynllun.

(6) Mewn dau achos, nid oedd cynllun hyfforddiant cychwynnol yn ffeil y plentyn neu'r person ifanc. Dim ond dau gynllun hyfforddiant a oedd yn cynnwys prosesau adferol ar gyfer dioddefwyr, oedd yn gydnaws â chynlluniau ac asesiadau eraill neu a gafodd eu gweld a'u harwyddo gan y rhieni/gofalwyr. Dim ond tri a aseswyd fel rhai wedi'u gosod mewn trefn briodol. Roedd ychydig dros hanner yr achosion yn nodi pa elfennau fyddai'n cael eu darparu yn y ddalfa a pha rai yn y gymuned. Dim ond mewn tri achos yr oedd yr ymyriadau a gynlluniwyd yn debygol o roi sylw i ymwybyddiaeth o ddioddefwyr. Ac ystyried bod rhai plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli mewn sefydliadau diogel y tu allan i Gymru, nid oedd llawer o dystiolaeth bod eu hanghenion diwylliannol, a'u hanghenion ieithyddol o bosib, yn cael eu diwallu.

(7) Roedd staff y GTI a staff y sefydliadau hyfforddi diogel yn cydweithio er mwyn rhoi sylw i anghenion corfforol, anghenion emosiynol ac anghenion iechyd meddwl yn hanner yr achosion perthnasol.

(8) Roedd y cyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc yn y Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn dameidiog ar adegau. Er bod y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd Gorchmynion Cadw a Hyfforddi yn cael eu cefnogi gan staff y GTI, ychydig iawn o gysylltiad, os o gwbl, oedd rhwng staff y GTI a phlant a phobl ifanc y tu allan i'r fforymau ffurfiol hynny. Un o'r rhesymau dros hyn oedd diffyg cefnogaeth y Sefydliad Troseddwyr Ifanc i ymweliadau proffesiynol. Byddai'r plant a'r bobl ifanc a gyfwelwyd gennym ni wedi hoffi cael mwy o gysylltiad (yn ychwanegol at yr adolygiadau) gan gynnwys llythyrau a galwadau ffôn. Mewn un rhan o dair o'r achosion, nid oedd tystiolaeth bod gweithiwr y GTI wedi cynorthwyo'r rhieni/gofalwyr i gadw mewn cysylltiad â'u plentyn neu berson ifanc.

3.2 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc eu diogelu trwy waith y TTI yn ystod cyfnod y ddedfryd yn y ddalfa i gyfrannu at hyrwyddo'u lles, a lle bo'n briodol, eu diogelwch.

Cryfderau:

(1) Roedd y GTI yn cofnodi statws gofal cymdeithasol y plentyn neu'r person ifanc ym mhob achos. Gwiriwyd mwy nag un rhan o dair ohonynt mewn perthynas â'r gorchymyn penodol ac roedd eu hanner wedi cael eu gwirio mewn perthynas â gorchymyn blaenorol.

(2) Roedd cysylltiad a chyswllt gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod asesu hwn ac, mewn un achos, drwy gydol cyfnod y ddedfryd yn y ddalfa gan fod y plentyn neu'r person ifanc yn achos gweithredol gyda gweithiwr cymdeithasol penodedig.

(3) Roedd tîm gweithredu camddefnyddio sylweddau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ymwneud â'r Byrddau Lleol Diogelu Plant er mwyn datblygu protocol ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau mewn modd problemus.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd mwy na dwy ran o dair o'r plant neu'r bobl ifanc wedi bod yn beryglus iddynt hwy eu hunain, a'r rhan fwyaf oherwydd camddefnydd o gyffuriau neu alcohol neu oherwydd eu hymddygiad. Roedd dwy ran o bump mewn perygl o niwed gan bobl eraill, neu wedi bod mewn perygl o niwed gan bobl eraill yn y gorffennol, ac roedd dau blentyn a pherson ifanc mewn perygl o niwed gan eu cyfoedion ar hyn o bryd. Er hyn, dim ond un cynllun yn ymwneud â'r duedd i fod yn agored i niwed oedd wedi cael ei lunio er mwyn mynd i'r afael ag anghenion a nodwyd, ac nid oedd unrhyw atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud ar gyfer gofal cymdeithasol.

(2) Ni fu unrhyw gydweithio rhwng y GTI a gofal cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â materion penodol yn ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc.

3.3 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI (neu eraill ar ei ran), yn cynnal gweithgareddau priodol yn ystod cyfnod cymunedol y ddedfryd, i atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu.

Cryfderau:

(1) Ar ôl dychwelyd i'r gymuned, roedd pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyflwyniad amserol a chynhwysfawr. Adolygwyd Assets mewn mwy na thri chwarter yr achosion ac roedd gan bob un gynllun ymyrryd cyn pen deng niwrnod ar ôl cael ei ryddhau.

(2) Roedd y cynlluniau ymyrryd a'r gwaith dilynol a oedd yn cael ei wneud gyda'r plentyn neu'r person ifanc yn ystod cyfnod cymunedol ei ddedfryd yn adeiladu ar waith a ddechreuwyd yn y ddalfa yn nhri chwarter yr achosion a welwyd ac roedd bron bob un yn sensitif i faterion amrywiaeth.

(3) Roedd cysylltiadau da iawn â chwmni dysgu seiliedig ar waith Dinas a Sir Abertawe. Gwneid defnydd da o'r cwmni er mwyn darparu ystod o gyrsiau priodol i blant a phobl ifanc pan fyddent yn dychwelyd i'r gymuned.

(4) Roedd enghreifftiau cadarnhaol o blant a phobl ifanc a oedd yn dychwelyd o'r ddalfa yn cael cymorth ar unwaith gan Gyrfa Cymru a'r gweithwyr Cadw Mewn Cysylltiad, ac roedd hynny'n arwain at leoliadau hyfforddiant priodol megis hyfforddiant cynllunio gerddi a gyrru wagenni codi.

(5) Roedd yr ystod eang o raglenni priodol yn y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid yn rhoi cyfleoedd gwych i'r plant a'r bobl ifanc hyn ymwneud ag addysg. Roedd y tîm gwasanaeth ôl-ofal ar ôl cyfnod yn y carchar yn galluogi plant a phobl ifanc i fanteisio ar ystod dda o gymwysterau gan Rwydwaith Cenedlaethol y Coleg Agored a gweithgareddau yn seiliedig ar sgiliau. Roedd y rhain yn cynnwys cymwysterau mewn technoleg gwybodaeth, byw'n iach, sgiliau sylfaenol a gwaith coed.

(6) Roedd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gael yn y rhan fwyaf o'r achosion yn unol â'r safonau cenedlaethol.

(7) Roedd y Ddarpariaeth Adsefydlu ac Ôl-ofal yn dal i weithio gyda nifer o blant a phobl ifanc yn ystod cyfnod cymunedol eu gorchymyn a, lle'r oedd hynny'n briodol, ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben.

(8) Roedd gweithwyr y GTI yn ymdrechu'n galed i gael llety priodol ar gyfer plant a phobl ifanc ac, mewn mwy na thri chwarter yr achosion, roedd y llety wedi gwella erbyn diwedd y gorchymyn.

(9) Mewn mwy na thri chwarter yr achosion, roedd amlder y cysylltu'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol ac yn helpu i gyflawni amcanion y cynllun ymyrryd. Roedd presenoldeb ym mhob ymyriad yn cael ei fonitro ym mhob un o'r achosion a welsom ni. Cymerid camau gorfodaeth a chamau yn ymwneud â thorri amodau mewn modd cyson ac amserol.

Meysydd i'w gwella:

(1) Dim ond mewn ychydig dros hanner yr achosion a welwyd yr adolygwyd PN i eraill cyn pen deng niwrnod ar ôl rhyddhau a phob tri mis yn dilyn hynny.

(2) Roedd llai na dwy ran o dair o'r ymyriadau a gynlluniwyd yng nghyfnod cymunedol y ddedfryd yn herio'r plentyn neu'r person ifanc i dderbyn y cyfrifoldeb am ei ymddygiad troseddol.

(3) Er bod yr anawsterau wrth geisio parhau ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn cael eu cydnabod, yn enwedig yng nghyswllt plant a phobl ifanc sy'n cael eu hanfon i sefydliadau yn Lloegr, dim ond mewn ychydig dros un rhan o dair

o'r achosion y parheid â chynlluniau dysgu ar ôl rhyddhau, a dim ond mewn ychydig dros hanner yr achosion yr asesid llythrennedd yn unol â safonau cenedlaethol.

3.4 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi cael dedfryd o garchar.

Cryfderau:

(1) Roedd nifer y dedfrydau o garchar wedi gostwng o 37 yn 2006/2007 i 27 yn 2007/2008.

(2) Dim ond un plentyn neu berson ifanc oedd wedi'i gael yn euog o drosedd yn ystod cyfnod cymunedol ei ddedfryd. Roedd mwy na thri chwarter y plant a'r bobl ifanc dan sylw wedi cydymffurfio â gofynion y gorchymyn a chofnodwyd newidiadau cadarnhaol mewn agwedd ac ymddygiad mewn mwy na dwy ran o dair o'r achosion.

(3) Lle'r oedd asesiadau Asset wedi cael eu hailsgorio roedd pob un bron yn dangos gwelliant ers y sgorau cychwynnol. Bu dirywiad yn y ffactorau troseddegol blaenoriaeth cyntaf mewn un achos yn unig a gwelliant neu welliant sylweddol mewn un rhan o dair o'r achosion. Yn yr ail a'r trydydd ffactor blaenoriaeth, bu gwelliant sylweddol neu rywfaint o welliant yn hanner yr achosion a dirywiad unwaith eto mewn un achos yn unig.

(4) Gwelwyd newidiadau cadarnhaol amlwg mewn agweddau at droseddu ac ymddygiad mewn mwy na dwy ran o dair o'r achosion.

(5) Canfu'r archwiliad o achosion cadw yn y ddalfa fod llety wedi gwella ar gyfer mwy na thri chwarter y plant a'r bobl ifanc.

Meysydd i'w gwella:

(1) Mewn tri o'r pedwar achos perthnasol, ni fu unrhyw ostyngiad yn y peryglon a oedd yn gysylltiedig â diogelu a dim ond mewn un o'r achosion yr oedd materion diogelu wedi cael eu rheoli'n dda.

(2) Ni fu unrhyw fanteision amlwg i'r gymuned yng nghyswllt lleihau difrifoldeb neu amlder troseddu mewn mwy na hanner yr achosion a welwyd a dim ond mewn un achos y bu ymdrech i wneud iawn â'r gymuned.

(3) Gwelwyd newidiadau cadarnhaol amlwg mewn ymwybyddiaeth o ddioddefwyr mewn dau achos yn unig.

Casgliad: Dengys yr asesiad bod y meini prawf hyn yn cael eu hasesu'n **ddigonol**.

4. DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

4.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae dioddefwyr plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn teimlo iddynt gael eu cynorthwyo gan ymyriad y TTI i deimlo'n fwy diogel a chau pen y mwdwl ar y mater.

Roedd y tîm dioddefwyr a chyfiawnder adferol yn cynnwys cydgysylltydd cyfiawnder adferol, gweithiwr cyswllt a chefnogaeth i ddioddefwyr a swyddog o'r heddlu a oedd yn gyfrifol am ymyriadau adferol. Roedd penderfyniad wedi'i wneud i ganolbwyntio ymarfer o fewn rhybuddion terfynol a gorchmynion atgyfeirio. Lle'r oedd achosion o anghenion wedi'u hasesu'n benodol, gellid cymryd camau cyfiawnder adferol mewn meysydd eraill yr oedd y GTI yn gyfrifol amdanynt. Roedd cynlluniau'n cael eu datblygu er mwyn gwneud gwaith adferol yn rhan annatod o'r 'biwrô' a oedd yn cael ei ddatblygu fel rhan o ymyriad cynnar ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu am y tro cyntaf.

Cryfderau:

(1) Roedd yr heddlu wedi rhoi manylion am y dioddefwyr i'r GTI yn unol â safonau cenedlaethol yn nhri chwarter yr achosion perthnasol.

(2) Ymatebodd deg dioddefwr i holiaduron arolygu, neu cawsant eu cyfweld, ac roedd y mwyafrif helaeth yn fodlon iawn â'r gwasanaeth roeddent yn ei gael. Roedd un o'r sylwadau'n dweud bod y gwasanaeth yn: "Rhagorol a chefnogol iawn bob amser." Roedd rhai wedi bod yn rhan o gynhadledd cyfiawnder adferol ac roeddent yn teimlo bod y gynhadledd wedi bod yn fuddiol a'i bod wedi caniatáu iddynt gau pen y mwdwl i ryw raddau. Roedd un a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth ambiwlans wedi arwain at gyflwyniad i blant a phobl ifanc am eu gwaith a pha mor hanfodol oedd eu cyfarpar er mwyn achub bywydau. Yn dilyn hyn, roeddent wedi ymwneud â darparu dosbarthiadau cymorth cyntaf.

(3) Roedd y swyddog cyswllt dioddefwyr yn darparu hyfforddiant cyfiawnder adferol i weithwyr eraill ac yn ymweld ag ysgolion (cynradd ac uwchradd) i sôn wrth blant a phobl ifanc am waith adferol. Roedd hefyd wedi trefnu cynadleddau er mwyn lledaenu arferion da.

(4) Roedd deg gwirfoddolwr cymorth i ddioddefwyr yn cynorthwyo gyda gwaith cymorth i ddioddefwyr a phrosiectau adfer dioddefwyr.

(5) Roedd rhaglen allgymorth yn cael ei gweithredu ar y cyd â GTI Rhondda Cynon Taf lle'r oedd plant a phobl ifanc yn cael mynd ar gwrs gweithgareddau awyr agored a oedd yn para am wythnos gyfan ac a oedd yn canolbwyntio ar

weithgareddau datblygu cymeriad. Roedd y plant a'r bobl ifanc yn datblygu hyder a hunan-barch, yn dysgu sut i weithio fel rhan o dîm a sut roedd eu hymddygiad hwy'n effeithio ar aelodau eraill y tîm.

(6) Roedd y tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol yn darparu cyfleoedd cyfiawnder adferol yn gynnar, drwy ei waith mewn ysgolion. Roedd hefyd yn annog plant a phobl ifanc a oedd yn dangos ymddygiad gwrthgymdeithasol i ymwneud â phrosiectau cymunedol.

(7) Roedd nifer o wahanol brosiectau gwneud iawn anuniongyrchol ar gael yn y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid, gan gynnwys prosiectau gwneud bocsys dal blodau a byrddau adar ar gyfer trigolion cartrefi gofal lleol. Roedd plant a phobl ifanc hefyd yn ymwneud â phrosiect beiciau. Roeddent yn atgyweirio beiciau a oedd yn cael eu dosbarthu i blant a phobl ifanc difreintiedig eraill yn Abertawe fel rhan o Apêl Teganau Nadolig Mr X.

(8) Roedd gweithwyr unigol yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ddioddefwyr gyda phlant a phobl ifanc gan ddefnyddio ymarferion strwythuredig. Gwelwyd hyn mewn dwy ran o dair o'r achosion a oedd yn cynnwys gwaith yn y gymuned gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu.

(9) Gallai dioddefwyr gael cynnig ymyriadau rhaglennu niwroieithyddol ac roedd y GTI wedi hwyluso cyfeiriadau at asiantaethau allanol priodol fel Cymorth i Ddioddefwyr.

(10) Mewn achosion difrifol, lle'r oedd y troseddau'n cael eu hystyried yn droseddau difrifol â chyfnod yn y carchar, roedd y cyfrifoldeb am ddiogelwch dioddefwyr yn seiliedig ar brotocol y Gwasanaeth Prawf ar gyfer dioddefwyr. Lle'r oedd troseddau difrifol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y gymuned (e.e. troseddau rhywiol), roedd swyddog yr heddlu ym maes cyfiawnder adferol yn ymwneud â'r achosion.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd prosesau dioddefwyr a chyfiawnder adferol wedi'u cyfyngu gan mwyaf i rybuddion terfynol a gorchmynion atgyfeirio a phrin iawn oedd y dystiolaeth o ystyriaeth systematig a chyson o ymwybyddiaeth o ddioddefwyr a phrosesau adferol yn y rhan fwyaf o'r achosion eraill a welwyd. Dywedwyd wrthym mai dim ond yn achlysurol y byddai gweithiwr achos ar fath gwahanol o orchymyn yn gofyn am ymyriad penodol.

(2) Nid oedd blaenoriaeth briodol wedi'i rhoi i'r dioddefwr mewn mwy na phedwar o bob pum achos lle'r oedd dioddefwr hysbys neu ddioddefwr posib, amodau cyfyngol/gwaharddol ar y drwydded neu'r gorchymyn, neu bryderon yn ymwneud â diogelu. Gwahoddwyd y dioddefwr i gymryd rhan mewn proses gyfiawnder adferol mewn llai nag un o bob pump o'r achosion a archwiliwyd gennym, lle'r oedd dioddefwr hysbys, ac ni ddewisodd yr un o'r rhain gymryd rhan yn y broses.

(3) Dim ond mewn dau o 41 achos posib yr ymgymerwyd ag unrhyw weithgareddau uniongyrchol, anuniongyrchol neu gymunedol i wneud iawn.

Roedd gwaith ymwybyddiaeth o ddioddefwyr yn cael ei wneud â llai na thraean o'r achosion a welwyd o blant a phobl ifanc a oedd wedi cael eu dedfryd o garchar.

(4) Roedd gorchmynion atgyfeirio'n un o'r meysydd lle dylai gwaith gyda dioddefwyr fod wedi cael ei wneud. Fodd bynnag, yn yr achosion a archwiliwyd gennym ni, dim ond un rhan o dair o'r plant neu'r bobl ifanc oedd wedi ymwneud ag unrhyw fath o broses gwneud iawn. Prin oedd y dystiolaeth bod dioddefwyr yn ymwneud yn uniongyrchol yn rheolaidd â phaneli troseddwyr ifanc. Gwelwyd ychydig o ddefnydd o ddatganiadau gan ddioddefwyr yn ddiweddar.

(5) Dywedwyd wrthym fod rhai anawsterau yn ymwneud â gwybodaeth gan yr heddlu, gyda rhywfaint o'r wybodaeth yn wael a heb ei derbyn mewn pryd, ac roedd hyn yn wir yn chwarter yr achosion a welsom.

Casgliad: Dengys yr asesiad bod y meini prawf hyn yn cael eu hasesu'n **ddigonol**.

5. RHEOLI AC ARWAIN

Arwain a chynllunio

5.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r Bwrdd Rheoli wrthi'n gweithio gydag eraill, gan gynnwys rheolwr y TTI, mewn ffordd integredig i gynyddu'r tebygolrwydd o wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Roedd y Bwrdd yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Gwasanaethau Cymdeithasol), a oedd yn aelod o dîm rheolaeth gorfforaethol Dinas a Sir Abertawe.

Cryfderau:

(1) Roedd gan y Bwrdd Rheoli gynrychiolaeth ar lefel briodol o holl bartneriaid statudol y GTI ac roedd tystiolaeth o ymroddiad cynyddol gan aelodau. Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli wedi gwella, ynghyd â'r cyfranogiad gweithredol.

(2) Er nad oedd y Prif Swyddog Gweithredol yn aelod o'r Bwrdd, roedd yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r GTI ac roedd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ganddo. Roedd cynlluniau ar y gweill i adnewyddu cysylltiadau â'r tîm rheolaeth gorfforaethol a'r broses wleidyddol. Dylai hyn gynyddu gwybodaeth o waith y GTI, cryfhau cysylltiadau â strategaethau a chynlluniau eraill a sicrhau bod y GTI yn cael ei gynnwys yn y rhain.

(3) Roedd Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 wedi cael ei integreiddio'n dda â chynlluniau eraill, yn enwedig diogelwch cymunedol, Cynllun Plant 2007/2008 a Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan 2008. Roedd y Bwrdd Rheoli'n cymeradwyo'r cynllun, yn monitro'i weithrediad ac yn ei adolygu'n rheolaidd.

(4) Roedd Rheolwr y GTI a'i ddirprwy'n ymwneud â nifer o grwpiau strategol eraill. Roedd y rheolwr yn aelod o Abertawe Mwy Diogel (y Rhaglen Diogelwch Cymunedol), a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac roedd yn cadeirio'r tîm gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau, un o is-grwpiau'r bartneriaeth. Roedd y dirprwy'n aelod llawn o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ac roedd yn ymwneud â nifer o is-grwpiau. Roedd y ddau'n ymwneud â'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ac roeddent wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Un Cynllun Plant ar gyfer 2008/2009.

(5) Cynhyrchid a thrafodid gwybodaeth am berfformiad yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli. Lle nad oedd targedau'r BCI yn cael eu cyrraedd, roedd proses glir o ddatrys problemau er mwyn mynd i'r afael â materion a datblygu

cynlluniau gwella. Un enghraifft o hyn oedd y grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i archwilio'r ffigurau perfformiad gwael ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: datblygwyd cynllun gwella a darparwyd rhagor o adnoddau. Roedd y GTI hefyd wedi datblygu gwybodaeth leol i'w defnyddio gyda phartneriaid ac roedd yn ceisio datblygu hyn drwy weithio gyda TTIau eraill yng Nghymru.

(6) Roedd gan y GTI ymrwymiad i amrywiaeth, a gwelsom hynny wrth asesu achosion. Roedd wedi gweithio gyda phobl nad oeddent yn gallu siarad Saesneg, gyda theuluoedd teithiol a phobl oedd ag anableddau dysgu. Roedd wedi datblygu perthynas waith dda gyda grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd gan y Bwrdd Rheoli Gadeirydd newydd ac roedd rhai aelodau o'r Bwrdd yn newydd. Nid oedd proses gynefino ffurfiol, yn enwedig o ran rolau a chyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd.

(2) Roedd y wybodaeth am berfformiad a oedd ei hangen gan y BCI yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd i'r Bwrdd, ond newydd ddechrau canolbwyntio ar faterion perfformiad allweddol a herio'r materion hynny yr oedd y Bwrdd. Nid oedd gwybodaeth am ganlyniadau ac adborth o brosesau ymgynghori'n cael eu coladu, eu gwerthuso a'u cyflwyno i'r Bwrdd, ac nid oedd gan y Bwrdd, hyd yn hyn, rôl yn y gwaith o benderfynu sut y gallai hyn ddylanwadu ar ymarfer.

(3) Roedd materion yn ymwneud â'r gyllideb yn cael eu trafod yn briodol yng nghyfarfodydd y Bwrdd ond, unwaith eto, nid oedd aelodau'r Bwrdd wedi cael llawer o gyflwyniad er mwyn eu galluogi i ddeall meysydd a oedd yn achosi pryder neu i herio perfformiad gwannach.

(4) Nid oedd tystiolaeth bod materion amrywiaeth yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ar ffurf adroddiad na bod sylw'n cael ei roi iddynt gan y Bwrdd.

Partneriaeth ac adnoddau

5.2 Maen prawf cyffredinol:

Mae sefydliadau partner a'r TTI yn cydweithio'n effeithiol i amddiffyn y cyhoedd, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol a chyflwyno canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Cryfderau:

(1) Roedd y GTI wedi'i staffio'n ddigonol ar lefel rheolwyr achosion a gweithwyr prosiect.

(2) Roedd Rheolwr y GTI yn dda iawn am gael gafael ar ragor o arian ac arian allanol, yn unigol ac â phartneriaid eraill. Roedd y GTI wedi bod yn rhan o nifer o gynlluniau peilot a oedd yn caniatáu mynediad at gyllid. Dangoswyd rheolaeth dda dros adnoddau, er enghraifft pan ostyngodd nifer y gorchmynion statudol, trosglwyddwyd adnoddau o'r tîm gorchmynion statudol i wasanaethau atal.

(3) Roedd y GTI yn cyfrannu'n briodol at waith a oedd yn cael ei wneud ar y cyd rhwng asiantaethau yng nghyd-destun rheoli PN i'r gymuned. Roedd y dirprwy reolwr yn ymwneud â MAPPA a chofrestru gyda'r heddlu.

(4) Roedd aelodaeth y dirprwy reolwr o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant wedi arwain at gysylltiad â nifer o is-grwpiau, gan gynnwys y Grŵp Adolygu Achosion Difrifol. Roedd staff y GTI yn gyfarwydd â'r Fframwaith Asesu Cyffredin ac yn ei ddefnyddio. Roeddent yn ymwneud â phrosesau diogelu ac yn mynychu cynadleddau amddiffyn plant, ac roeddent yn aelodau o grwpiau craidd.

(5) Roedd swyddog y llys yn cynrychioli'r GTI ar grŵp tasgau a chydgysylltu'r heddlu ar gyfer troseddwyr cyson a throseddwyr eraill sy'n flaenoriaeth. Roedd trefniadau effeithiol yn y strategaeth atal er mwyn rheoli camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

(6) Roedd protocol gyda'r llys ar gyfer ardal De Cymru, ac roedd gan y GTI berthynas waith dda gyda dedfrydwyr, staff llys ac asiantaethau eraill a oedd yn ymwneud â'r llysoedd. Roedd nifer o brotocolau gydag asiantaethau partner a sefydliadau perthnasol eraill a oedd yn rhoi sylw i gydgysylltu gwaith, rhannu gwybodaeth, materion adnoddau dynol a threfniadau ariannu. Roedd y rhan fwyaf yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac roeddent yn gyfredol.

(7) Roedd trefniadau arbennig o dda gyda'r heddlu ar gyfer rhannu gwybodaeth a chyfeiriwyd yn bur fanwl at y rhan o'r adroddiad hwn sy'n ymdrin â Rhannu Arferion Da.

(8) Roedd y Pennaeth Gwasanaeth Adfywio a Thai yn aelod o'r Bwrdd Rheoli ac roedd y GTI yn ymwneud â nifer o grwpiau llety gan gynnwys Strategaeth Digartrefedd Abertawe a grŵp comisiynu ar gyfer anghenion cymhleth Cefnogi Pobl Abertawe.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd rhai aelodau o'r Bwrdd yn credu bod diffyg fformiwla ariannu ranbarthol/genedlaethol wedi achosi problemau wrth geisio cyflawni dyletswyddau statudol newydd ac wedi golygu bod gofal cymdeithasol yn wynebu mwy o wariant na'i siâr. Roedd tensiynau'n dal i fodoli hefyd gyda'r gyllideb oherwydd problemau gyda chostau ar wahân i gostau staff nad oedd arian ar eu cyfer ar ôl i grantiau allanol ddod i ben. Roedd y cyllid tymor byr a ddarperid ar gyfer nifer o brosiectau hefyd yn achosi tensiwn. Ar adeg yr arolygiad, roedd y materion hyn yn dal heb eu datrys.

(2) Roedd y broses hysbysiadau a'r clinig rhybudd terfynol wedi cael eu nodi fel

meysydd yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Roedd gwaith yn cael ei wneud yn y cyswllt hwn yn ystod yr arolygiad, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio staff y GTI i gyflawni dyletswyddau eraill.

(3) Roedd trefniadaeth y GTI yn golygu bod nifer bach o reolwyr yn gyfrifol am nifer o wahanol dimau. Y dirprwy reolwr oedd arweinydd y tîm gorchmynion statudol ac roedd hefyd yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwerthusiadau staff. Roedd hyn wedi cael effaith negyddol ar faterion sicrwydd ansawdd, datblygu staff a chefnogaeth. Roedd profiad a sgiliau llawer o'r staff yn ffactor cadarnhaol iawn, ond roedd hefyd yn dangos bod angen rhywfaint o waith cynllunio gweithlu ymlaen llaw a systemau cadarn er mwyn sicrhau nad oedd arferion da'n ddibynnol ar unigolion.

Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff

5.3 Maen prawf cyffredinol:

Caiff canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan staff effeithiol.

Roedd y GTI wedi datblygu i fod yn strwythur mawr gyda nifer o dimau mewnol yn darparu gwasanaethau atal, ymyriadau cynnar, goruchwyliaeth gymunedol a gofal drwy'r broses. Roedd y timau hyn yn cynnwys staff arbenigol ar gyfer iechyd, addysg, dioddefwyr a chyfiawnder adferol. Cefnogid y gwasanaeth cyfan gan staff gweinyddol, staff perfformiad a staff cyllid.

Cryfderau:

(1) Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gyfwelwyd gennym ni'n credu bod eu rheolwyr yn dangos agwedd ddigon proffesiynol ac arweiniad cadarnhaol ac roedd un rhan o dair ohonynt yn dangos agwedd ragorol at reoli.

(2) Roedd gan y rhan fwyaf o'r staff ddealltwriaeth glir o'u rolau, eu tasgau a'u ffiniau ac roeddent yn ymarferwyr cymwys. Roeddent yn frwdfrydig ac yn ymroddedig i'w gwaith ac i'r plant a'r bobl ifanc roeddent yn gweithio gyda hwy. Dylid cyfeirio'n benodol at y staff gweinyddol a oedd yn darparu gwasanaeth da iawn, a oedd yn aelodau gwerthfawr o'r GTI, wedi'u hintegreiddio'n dda, ac a oedd â brwdfrydedd heintus tuag at eu gwaith.

(3) Roedd yr holl staff a oedd yn cael eu cyflogi neu eu secondio wedi cael gwiriad cyfredol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ac roedd y cofnodion yn cael eu diweddaru'n rheolaidd bob tair blynedd. Roedd y staff gwaith cymdeithasol wedi'u cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru.

(4) Roedd polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ac roedd y staff yn credu eu bod yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol drwy ddulliau amrywiol gan gynnwys y rhyngrwyd a negeseuon e-bost, yn ystod cyfarfodydd tîm ac fel rhan o ddiwrnodau cwrdd i ffwrdd y GTI.

(5) Roedd bron bob un o'r staff a gyfwelwyd neu a ymatebodd i holiaduron yn teimlo bod eu hanghenion hyfforddi a datblygu'n cael eu bodloni'n ddigonol neu'n rhagorol.

(6) Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac roeddent yn fodlon ag ansawdd yr oruchwyliaeth.

(7) Roedd gan y GTI dros 50 o wirfoddolwyr a phartneriaeth gyda Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe. Darperid hyfforddiant a chefnogaeth i'r gwirfoddolwyr hyn. Cyfeiriodd aelodau o'r panel troseddwyr ifanc at y gwahanol fathau o hyfforddiant a oedd ar gael a'r gefnogaeth ragorol a gaent. Roedd prentisiaid modern yn gweithio fel mentoriaid i gefnogi plant a phobl ifanc yr oedd perygl iddynt droseddu. Roeddent yn cael ystod eang o hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant ym maes diogelu a lle i bennu ffiniau personol. Roedd pob un o'r gwirfoddolwyr wedi cael gwiriad cyfredol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mantais arall i'r GTI oedd bod nifer sylweddol o wirfoddolwyr wedi symud ymlaen o statws gwirfoddol i staff cyflogedig.

(8) Roedd trefniadau clir ar gyfer rheoli prosesau disgyblu, gallu a chwynion, gan gynnwys prosesau ar gyfer staff ar secondiad.

(9) Roedd cwynion yn cael eu rheoli'n briodol ac roedd dealltwriaeth dda o'r prosesau y gellid eu defnyddio gan ddibynnu ar yr asiantaeth a oedd yn cyflogi'r aelod o staff dan sylw.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd rhai staff nad oeddent yn cael goruchwyliaeth reolaidd; roedd eraill yn teimlo nad oedd ganddynt y prosesau na'r gweithdrefnau yr oedd arnynt eu hangen ac nad oedd eu rolau'n ddigon eglur.

(2) Roedd y trefniadau ar gyfer gwerthusiadau'n golygu bod y rhan fwyaf o'r gwaith yn disgyn ar ysgwyddau un person. Roedd hyn yn golygu cryn dipyn o bwysau ac wrth gwrs roedd rhai gwerthusiadau'n hwyr yn cael eu gwneud.

(3) Nodwyd rhai anghenion pwysig yn ymwneud â hyfforddi yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys PN, PND, cynlluniau rheoli perygl, cynlluniau yn ymwneud â'r duedd i fod yn agored i niwed a chynllunio ymyriadau. Byddai hyfforddiant UMIS mwy cynhwysfawr wedi bod o fudd i staff atal a staff perthnasol eraill.

(4) Nid oedd barn am y gwasanaeth a barn rhanddeiliaid yn cael eu casglu fel mater o drefn ac yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar ymarfer. Nid oedd y Bwrdd Rheoli'n cael y wybodaeth hon na gwybodaeth fanwl am ganlyniadau y gellid eu defnyddio fel sail ar gyfer ymarfer.

(5) Nid oedd y GTI wedi gallu denu gweithwyr o gefndir amrywiol ac nid oedd wedi gallu cael caniatâd i wahaniaethu mewn ffordd gadarnhaol wrth recriwtio. Yn yr un modd, roedd yn cael anhawster i recriwtio staff a oedd yn

siarad Cymraeg. Roedd cryn dipyn o waith wedi'i wneud i geisio hyfforddi staff, ond yn anffodus roedd y staff a oedd wedi dod yn rhugl yn y Gymraeg wedi symud ymlaen i swyddi eraill.

Casgliad: Dengys yr asesiad bod y meini prawf hyn yn cael eu cyflawni'n **dda**.

Atodiad 1: Gwybodaeth gyd-destunol

Ardal

Roedd GTI Abertawe yn ymwneud ag awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe, yn Ne Cymru.

Roedd gan yr ardal boblogaeth o 223,301 yn ôl Cyfrifiad 2001, ac roedd 10.2% o'r boblogaeth rhwng deg ac 17 oed. Roedd hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 10.4%.

Roedd poblogaeth Abertawe'n cynnwys Prydeinwyr Gwyn gan mwyaf (97.8%). Roedd canran y bobl o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth (2.2%) gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 8.7%.

Roedd nifer y troseddau cofnodedig a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc rhwng deg ac 17 oed yn yr ardal, sef 50.4 ym mhob 1,000, yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 54.4.

Y GTI

Roedd y GTI yn rhannu'r un ffiniau ag Ardal Prawf De Cymru a Heddlu De Cymru. Roedd un bwrdd iechyd lleol yn gwasanaethu Dinas a Sir Abertawe.

Yn ôl Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 roedd gan y GTI 73 aelod o staff a 39 o wirfoddolwyr. Roedd 60% o'r staff yn ferched ac roedd 1.3 o gefndir du neu leiafrif ethnig.

Roedd gan y GTI un brif swyddfa ar gyrion Dinas Abertawe. Roedd un Llys Ieuenctid yn Abertawe ac roedd Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys ar gyfer y ddinas a'r sir yn ei chyfanrwydd.

Data perfformiad y BCI

Ar adeg yr arolygiad, roedd crynodeb y BCI o berfformiad cyffredinol y GTI yn ystod y cyfnod o Ebrill i Fehefin 2008, yn rhoi sgôr o 2 i GTI Abertawe ar raddfa lle'r oedd y sgôr uchaf yn 5. Roedd hyn yn is na pherfformiad cenedlaethol Cymru a pherfformiad rhanbarthol De Cymru.

Cafodd perfformiad wrth leihau aildroseddu sgôr o 3, a oedd ychydig yn is na ffigurau cyfatebol Cymru Gyfan a De Cymru.

Atodiad 2: Data arolygu

Gwnaethpwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn yn ystod Medi a Hydref 2008.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- tystiolaeth ymlaen llaw
- archwiliad o ddata perfformiad ac asesiadau'r BCI
- archwiliad o ddulliau gweithredu mewn sampl o achosion, fel rheol ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall, fel a ganlyn:
  - deg ffeil atal
  - deg rhybudd terfynol
  - deg cosb haen gyntaf (gorchmynion atgyfeirio, gorchmynion gwneud iawn)
  - 11 dedfryd gymunedol
  - deg achos o gadw yn y ddalfa
- cyfweliadau ac ymatebion i holiaduron gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, a dioddefwyr
- cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc yn y ddalfa
- cyfarfodydd gyda staff, rheolwyr a phartneriaid.

Siartiau data

Mae'r sampl a ddewiswyd yn ystyried canran y genethod neu'r merched ifanc a oedd mewn cysylltiad â'r GTI. Cynhwysir nifer cynrychioladol yn dilyn hynny yn y sampl o achosion.



Mae'r sampl a ddewiswyd yn ystyried canran y plant a'r bobl ifanc o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig a oedd mewn cysylltiad â'r GTI. Cynhwysir nifer cynrychioladol yn dilyn hynny yn y sampl o achosion.



Mae'r sampl a ddewiswyd yn cynnwys nifer o achosion perygl mawr o niwed ac achosion Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys/troseddwyr mynych a throseddwyr eraill â blaenoriaeth. Mae'r niferoedd sydd wedi'u cynnwys yn dibynnu ar faint y TTI/GTI dan sylw, ac yn amrywio o 6 i 12 o achosion ym mhob sampl.

Achosion Troseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth



Perygl Mawr/Mawr Iawn o Niwed



Atodiad 3: Trefniadau arolygu ar y cyd

Dechreuodd y rhaglen arolygu TTIau ar y cyd ym mis Medi 2003 a hon yw'r rhaglen arolygu lawn gyntaf i archwilio gwaith y TTIau. Mae wedi cael ei rhoi ar waith dros bedwar cyfnod, ac mae'n ymdrin â phob TTI yng Nghymru a Lloegr dros gyfnod o bum mlynedd. O fis Medi 2005 ymlaen, mae'r canfyddiadau yn Lloegr wedi cyfrannu at yr Adolygiadau Ardal ar y Cyd o wasanaethau plant (dan arweiniad Ofsted) a'r Asesiad Corfforaethol o wasanaethau awdurdodau lleol (dan arweiniad y Comisiwn Archwilio).

Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a chod ymarfer

Arolygiaeth annibynnol yw Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, sy'n cael ei hariannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ein diben yw:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr unigol, plant a phobl ifanc sy'n anelu at leihau aildroseddu a diogelu'r cyhoedd, pwy bynnag sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn o dan nawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer y gwaith hwn, gan weithio gydag Arolygiaethau eraill yn ôl yr angen
- cyfrannu at berfformiad gwell gan y sefydliadau yr ydym yn eu harolygu
- cyfrannu at bolisi cadarn a chyflwyno gwasanaeth effeithiol, yn enwedig wrth ddiogelu'r cyhoedd, trwy roi cyngor a lledaenu arfer da, yn seiliedig ar ganfyddiadau arolygu, i Weinidogion, swyddogion, rheolwyr ac ymarferwyr
- hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach eraill mewn modd gweithredol, yn enwedig yn y sefydliadau yr ydym yn eu harolygu
- cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y system cyfiawnder troseddol, yn enwedig trwy weithio ar y cyd ag arolygiaethau eraill.

Nod Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw cyflawni ei diben a bodloni egwyddorion y Llywodraeth ar gyfer arolygu yn y sector cyhoeddus drwy:

- weithio mewn ffordd onest, broffesiynol, deg a chwrtais
- adrodd a chyhoeddi canfyddiadau arolygu ac argymhellion ar gyfer gwella mewn da bryd i safon dda
- hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a rhoi sylw ehangach i amrywiaeth ym mhob agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys yn ei harferion cyflogaeth a'i phrosesau sefydliadol ei hun
- sicrhau bod y broses arolygu'n arwain at gyn lleied â phosib o waith ychwanegol i'r sefydliadau hynny yr ydym yn arolygu eu gwaith.

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynglŷn ag arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n rhan o'i chylch gwaith anfon llythyr i'r cyfeiriad isod:

Prif Arolygwr Prawf Ei Mawrhydi
2nd Floor, Ashley House
2 Monck Street
Llundain, SW1P 2BQ

http://www.inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation